# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 20 GORFFENNAF 2021 am 2:00 y. p. | | TUESDAY, 20 JULY, 2021 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

To receive any declaration of interest by any member or officer in respect of any item of business.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2021.

**3** **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2020/21** (Tudalennau 9 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

**4** **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2020/21** (Tudalennau 31 - 42)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5** **ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2020/21** (Tudalennau 43 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**6** **DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2021/22** (Tudalennau 59 - 62)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**7** **ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU - CSYM** (Tudalennau 63 - 72)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

**8** **BLAEN RAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU** (Tudalennau 73 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Mrs Carys Edwards (Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Yvonne Thomas (Arweinydd Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Prif Archwiliwr (NRW), Swyddog Sgriwtini (SR) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod rhithwir o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny cyflwynodd pawb eu hunain a nodwyd yr ymddiheuriadau.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Mai 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2020/21

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Datganiad Llywodraethu Drafft ar gyfer 2020/21. Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw darparu sicrwydd bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn briodol, yn ddigonol a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cyflawni ei fusnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n ymarfer ei swyddogaethau, gan roi sylw i gyfuniad o fod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei faterion ei hun, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n





DRAFT

cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu lleol sydd yn gyson â'r egwyddorion a gynhwysir yn y ddogfen *Framework for Delivering Good Governance in Local Government* (CIPFA/Solace, 2016). Roedd bwriad ailymweld â'r cod lleol hwn yn ystod 2020/21 ond oherwydd y pandemig bydd y gwaith yn cael ei wneud yn 2021/22 yn awr. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r cod a hefyd sut mae'n bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y fframwaith llywodraethu a oedd mewn lle yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Tynnwyd sylw at elfennau o'r fframwaith fel a ganlyn –

- Trefniadau Rheolaeth Wleidyddol y ceir trosolwg ohonynt ar dudalen 7 y Datganiad. Diwygiwyd y fframwaith llywodraethu yn sylweddol yn sgil y pwerau argyfwng a ddirprwywyd i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr o ganlyniad i'r pandemig. Roedd Deddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd. Yn unol â hynny, adolygodd y Cyngor ei raglen o gyfarfodydd pwyllgor. Mewn ymgais i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes craidd, tra'n sicrhau atebolrwydd democrataidd a bod yn realistig ynghylch yr ansicrwydd yr oedd yn ei wynebu, cymeradwywyd strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 mewn egwyddor gan aelodau etholedig ar 12 Mai 2020.
- Mae ymdrin â'r argyfwng Covid 19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor - nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau rheng flaen a chynnal busnes arferol lle'r oedd hynny'n bosib, ond hefyd sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i ddiogelu staff y Cyngor wrth iddynt ddarparu gwasanaethau. Ar 18 Mawrth, 2020 sefydlwyd Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng a oedd yn cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor a gweithwyr allweddol o safbwynt ymateb i'r argyfwng; y Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng oedd y prif fforwm ar gyfer gwneud penderfyniadau ar weithgareddau'n ymwneud â'r Coronafeirws ar Ynys Môn gan sicrhau fod y penderfyniadau a wnaed yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y Cyngor er mwyn ymateb yn effeithiol i'r prif risgiau. Bu i Arweinydd y Cyngor ymarfer ei phwerau gweithredol i wneud penderfyniadau ar ddechrau'r pandemig pan nad oedd modd cynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod o bell cyntaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 20 Mai 2020 ac yn dilyn hynny cynhaliwyd pob cyfarfod pwyllgor o bell ac mae recordiadau o'r cyfarfodydd wedi bod ar gael ar wefan y Cyngor ar ôl i'r cyfarfodydd gael eu cynnal. Yn fwy diweddar dechreuwyd ffrydio cyfarfodydd yn fyw ar sianel YouTube y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau llywodraethu yn flynyddol. Mae'r prif ffynonellau sicrwydd sydd yn llywio'r adolygiad hwn wedi eu nodi ar Dudalen 8 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac maent yn cynnwys gwaith y rheolwyr o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd lywodraethu; adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a sylwadau gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygu eraill. Yn ogystal, mae adolygiadau a gwaith monitro yn digwydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac mae'n cynnwys y gweithgareddau a restrir.
- Mae'r asesiad cyffredinol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn system raddio hunanasesu lle mae "Rhagorol" yn dynodi nifer o gryfderau gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector ac mae "Anfoddhaol" yn dynodi bod meysydd pwysig i'w gwella'n gorbwyso'r cryfderau. Fel y mae'r tabl ar dudalen 18 y datganiad yn ei grynhoi, daw'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor i'r casgliad bod perfformiad y Cyngor yn erbyn pob un o saith egwyddor graidd dogfen CIPFA/Solace, *Delivering Good Governance in Local Government*, yn "Dda", sy'n golygu y nodwyd nifer o agweddau da a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n

DRAFT

sylweddol. Mae Atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl.
- Er gwaethaf heriau'r deuddeg mis diwethaf, roedd Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer 2020/21 yn cadarnhau nad oedd unrhyw feysydd o bryder corfforaethol sylweddol a bod angen cyflwyno rheolaethau mewnol, neu eu gwella, mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod yr amcanion sy'n cael eu monitro yn cael eu cyflawni.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn adrodd ar faterion llywodraethu allweddol a nodwyd ynghyd ag ymrwymiad i fynd i'r afael â nhw. Er na nodwyd unrhyw faterion llywodraethu sylweddol yn ystod 2020/21, nododd y broses hunanasesu'r materion llywodraethu a nodir ar dudalen 14 y Datganiad a byddant yn cael sylw yn 2021/22.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad am gyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 ac am roi trosolwg o'i gynnwys. Nododd y Pwyllgor hefyd bod fformat y Datganiad wedi gwella a'i fod yn haws ei ddarllen ac roedd hynny'n cael ei werthfawrogi. Wrth ystyried y ddogfen, nododd y Pwyllgor nad yw canlyniad yr hunanasesiad wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod y Cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus, ac awgrymwyd y dylid archwilio'r rhesymeg dros yr arfarniad. Ymhellach, gofynnodd y Pwyllgor a fu unrhyw fewnbwn allanol i'r datganid o ran dilysu'r hunanasesiad fel barn deg a chywir o gyrhaeddiad a chydymffurfiaeth.

Eglurodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad ei bod yn bwysig nodi fod hunanasesiad sy'n nodi "Da" yn erbyn saith egwyddor graidd Fframwaith CIPFA/Solace yn golygu na chafodd unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella eu nodi; byddai camu i'r lefel nesaf, sef gradd "Rhagorol", yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor fedru dangos a darparu enghreifftiau sylweddol o arfer sy'n arwain y sector, ac ni fernir bod hyn yn adlewyrchiad teg o'i sefyllfa bresennol. Mewn perthynas â mewnbwn allanol, mae gweithgareddau'r Cyngor ar draws ystod o wasanaethau yn destun goruchwyliaeth allanol gan reoleiddwyr, yn cynnwys Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru; ar sail canfyddiadau adolygiadau gan y rheoleiddwyr allanol ystyrir bod canlyniad yr hunanasesiad yn deg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2020/21, ac o'r herwydd, bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r dystiolaeth y'i seiliwyd arno yn destun archwiliad allanol.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21.**
- **Dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i wneud mân newidiadau pellach i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn ei gynnwys yn y fersiwn derfynol o'r Datganiad Cyfrifon.**

**GWEITHRED YCHWANEGOL: Gwahodd aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, i gynnig mân newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.**

## 4. DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad o Gyfrifon Drafft cyn iddynt gael eu harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyfrifol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon a thystio ei fod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw ar gyfer y flwyddyn. O dan y rheoliadau, rhaid cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2021. Fodd bynnag, mae'r terfynau amser estynedig a gyflwynwyd ar gyfer cyhoeddi cyfrifon 2019/20 er mwyn cydnabod effaith Covid 19 ar awdurdodau lleol a'u staff yn berthnasol i'r broses o gyhoeddi cyfrifon 2020/21 hefyd sy'n golygu bod gan awdurdodau lleol hyd at 31 Awst 2021 i gymeradwyo eu cyfrifon drafft ar gyfer 2020/21 a hyd at 30 Tachwedd 2021 i gyhoeddi eu cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio. Serch hynny, llofnododd y Swyddog Adran 151 gyfrifon drafft yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 ar 15 Mehefin 2021 a rhaid diolch i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith wrth gwblhau'r cyfrifon drafft yn gynharach na'r gofyn. Unwaith eto, roedd y broses yn un heriol eleni oherwydd pwysau parhaus delio â Covid 19 a hefyd oherwydd yr angen i roi cyfrif am y cyllid ychwanegol sylweddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cynghorau yn ystod y pandemig.

Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon 2020/21 a'i osod allan ar y fformat a bennir gan God Ymarfer Awdurdodau Lleol CIPFA a gofynion rheoliadau ac arferion cyfrifyddu; mae'n ddatganiad a gynhyrchir yn flynyddol i roi gwybodaeth eglur am gyllid y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Mae prif elfennau'r Datganiad o Gyfrifon yn cynnwys y canlynol –

- Yr Adroddiad Naratif sy'n darparu canllaw effeithiol ar y materion mwyaf arwyddocaol yr adroddir arnynt yn y cyfrifon. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y Cyngor yn gyffredinol a'r prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol sydd yn gyswllt rhwng gweithgareddau'r Cyngor a'r heriau a pha effaith y maent yn ei gael ar yr adnoddau ariannol. Yn 2020/21, adroddodd y Cyngor danwariant o £4.204m yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd o £142.146m (cyllideb net) a chyflawnodd £0.244m o arbedion. Mae'r tabl yn 3.4.1 yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2020/21 a'r gwir incwm a gwariant yn ei herbyn. Mae effaith y tanwariant yn golygu y bu cynnydd o £4.204m yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor, i £11.594m, sydd gyfystyr â 7.87% o'i gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Roedd tanwariant yn y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ac roedd cyfanswm y gwariant yn £33.129m yn erbyn Cyllideb Gyfalaf o £58.425m ar gyfer 2020/21.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (tudalen 17 o'r cyfrifon) yn dangos cost darparu gwasanaethau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu yn hytrach na'r swm a ariennir drwy drethi a dyna'r rheswm am y ffigwr o £24.231m. Mae angen gwneud nifer o addasiadau i'r swm a roddir yn erbyn y dreth gyngor ac mae Nodyn 7 yn cynnwys esboniad yn eu cylch (Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu o dan y rheoliadau). Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd yn dangos enillion neu golledion mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau'r awdurdod gan gynnwys rhwymedigaeth pensiwn a newidiadau o ganlyniad i ailbrisio asedau.
- Mae'r Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor (tudalen 23 yn y cyfrifon) yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal sydd wedi cael eu dadansoddi fel cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio (y gellir eu gwario yn y dyfodol) a chronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio (na ellir eu gwario yn y dyfodol). Cynyddodd Balans y Gronfa Gyffredinol i

£11.594m ar ddiwedd y flwyddyn; roedd Balans y Gronfa Wrth Gefn a Glustnodwyd yn £14.079m; roedd Balans y CRT yn £9.743m; roedd y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn £767k ac roedd Balansau Ysgolion yn £4.015m. Roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio, sef £40.198m, yn dangos cynnydd sylweddol o gymharu â chyfanswm y flwyddyn flaenorol. Nid yw hyn yn wahanol iawn i sefyllfa nifer o awdurdodau eraill gan eu bod wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â Covid-19 a'u bod wedi gwario llai ar ddarparu gwasanaethau oherwydd yr orfodaeth i gau a'r cyfyngiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r pandemig. Yn yr un modd, mae ysgolion yr Awdurdod wedi derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru, rhai ohonynt yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, sydd wedi cael eu dwyn ymlaen i 2021/22 a dyna pam y gwelwyd cynnydd ym malansau ysgolion. Disgwylir y bydd ysgolion yn defnyddio'r cyllid hwn eleni gan arwain at ostyngiad yng nghyfanswm gwerth balansau ysgolion.

- Mae'r Fantolen (tudalen 24 yn y cyfrifon) - yn dangos gwerth yr asedau ym mherchnogaeth y Cyngor a'r hyn sy'n ddyledus ganddo o ran rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2021, er na chynhwyswyd holl asedau'r Cyngor, dim ond y rhai hynny y mae angen eu dangos o dan y Cod. Mae'r Fantolen yn adlewyrchu sefyllfa ariannol da ar ddiwedd 2020/21, gydag asedau net gwerth £164.056m. Mae hyn yn ostyngiad o £24.230m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn ganlyniad lleihad o £38.484m mewn cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio a chynnydd o £14.254m mewn balansau y gellir eu defnyddio gan gynnwys y CRT. Bu i rwymedigaeth pensiwn cyffredinol net y Cyngor gynyddu o £124.520m ar 31 Mawrth 2020 i £176.261m ar 31 Mawrth 2021. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar asesiad a gynhaliwyd ar adeg benodol a gall amrywio'n sylweddol, ac er nad yw'n ddiffyg uniongyrchol y mae'n rhaid ei ad-dalu yn awr, mae'n rhwymedigaeth a gafwyd gan yr Awdurdod y bydd rhaid ei ariannu yn yr hirdymor.
- Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn ariannol wedi eu rhannu yn weithgareddau gweithredol, buddsoddi a chyllido (rhoddir y dadansoddiad yn Nodiadau 28, 29 a 30). Mae balans arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod y Cyngor wedi cynyddu i £28.738m.
- Mae'r Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol craidd yn darparu gwybodaeth ychwanegol ac yn egluro'r ffigyrau yn y prif ddatganiadau ariannol. Y rhai sydd fwyaf o ddiddordeb i'r trethdalwr yw Nodyn 8 – cronfeydd wrth gefn clustnodedig a'u pwrpas; Nodyn 9 – sefyllfa balansau ysgolion; Nodyn 15 – asedau nad ydynt yn rhai cyfredol – eiddo, peiriannau a chyfarpar; Nodyn 17 – asedau treftadaeth; Nodyn 20 – gwariant cyfalaf a chyllido; Nodyn 24 – Dyledwyr; Nodyn 26 – Credydwyr; Nodyn 27 – Darpariaethau (ar gyfer costau hysbys posib); Nodyn 33 – Lwfansau Aelodau; Nodyn 34 – Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion; Nodyn 37 – Incwm o grantiau (gan gynnwys y Grant Cymorth Refeniw); Nodyn 41 – Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; Nodyn 42 – Rhwymedigaethau wrth Gefn (lle nad yw'r costau posib yn hysbys); Nodyn 48 – Treth Gyngor; Nodyn 49 – Trethi Annomestig a Nodyn 51 – Asiantaeth, lle bu'r Cyngor yn gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau, gan gynnwys cynlluniau cymorth yn gysylltiedig â Covid 19.
- Mae Datganiad Ariannol ategol ar wahân wedi'i gynnwys ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.
- Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020/21 (a drafodwyd o dan yr eitem flaenorol) yn dilyn ar ddiwedd y Datganiad o Gyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd; cyflwynir y cyfrifon wedi'u harchwilio i gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn ym mis Medi er bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno a chymeradwyo cyfrifon ariannol 2020/21 yn ymestyn i ddiwedd mis Tachwedd 2021.

Wrth ystyried y datganiadau ariannol, trafodwyd y pwyntiau a ganlyn gan y Pwyllgor –

DRAFT

- Bod y cynnydd yn y ffigwr ar gyfer Dyledwyr (cynnydd o £4m ers 2019/20) yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg, yn cynnwys dyledion Treth Gyngor a rhenti yng nghyd-destun y pandemig, wedi gwaethygu caledi ariannol a phroblemau ariannol yn ôl pob tebyg, gan arwain at effaith bryderus ar les meddyliol.

  Er bod casglu'r Dreth Gyngor yn bwysig er mwyn cynorthwyo i ariannu gwasanaethau, rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sicrwydd fod yr Awdurdod wedi ceisio bod mor hyblyg â phosib wrth ymdrin â phobl sy'n wynebu caledi ariannol oherwydd Covid 19, gan gynnwys gohirio'r rhandaliadau Treth Gyngor ar gyfer mis Ebrill a Mai 2020 a pheidio â chymryd camau gorfodi yn y llysoedd neu ddilyn y broses adennill dyledion i'r un graddau ag arfer. O ganlyniad, disgynnodd cyfradd casglu Treth Gyngor yr Awdurdod yn 2020/21 o tua 97% i 95.5%. Rhagwelir y bydd effaith lawn dyledion Treth Gyngor yn gysylltiedig â Covid 19 yn dod i'r amlwg eleni a gallai olygu y bydd swm y ddyled y bydd rhaid ei dileu yn uwch. Cyflwynwyd cynllun newydd o'r enw Lle i Anadlu yng Nghymru a Lloegr sy'n ceisio rhoi amser i bobl sy'n wynebu trafferthion ariannol a chyfle iddynt dderbyn cyngor a chreu cynllun i ad-dalu eu dyledion; byddai'r Awdurdod yn annog pawb sy'n wynebu anawsterau wrth dalu eu Treth Gyngor i gymryd camau o'r fath oherwydd, er y bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r mesurau sydd ar gael iddo i adennill dyledion Treth Gyngor, mae'n well ganddo weithio gydag unigolion i ddod i gytundeb ynghylch sut i dalu'r ddyled.

- A fydd yr ad-daliadau am ffioedd arholi a dalwyd yn llawn neu'n rhannol gan ysgolion yn ymddangos ar fantolenni 2020/21 neu 2021/22.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) bod y ffigwr yn y cyfrifon yn adlewyrchu'r asesiad gorau o'r hyn y dylai ysgolion fod wedi'i dalu; os oedd y taliad a wnaed gan ysgolion yn uwch, yna byddai'r ad-daliad wedi'i gynnwys fel incwm yn y cyfrifon; os oedd y taliad yn is, yna byddai croniad wedi'i gynnwys am y swm sy'n ddyledus gan ysgolion ar sail asesiad. O dan y polisi mae'n rhaid rhoi cyfrif am wariant yn y flwyddyn y derbyniwyd y gwasanaeth. Os oes ad-daliad yn ddyledus yna byddai hynny wedi cael ei gynnwys yn y cyfrifon ar gyfer 2020/21. Pe byddai'r swm a dalwyd gan ysgolion yn uwch na'r swm dyledus y cytunir arno gyda CBAC, yna rhoddir cyfrif am y gwahaniaeth yng nghyfrifon 2021/22. Yn ogystal, wrth osod cyllideb y Cyngor, roedd cyllideb ddatganoledig ysgolion yn adlewyrchu'r cyllid oedd ei angen ar ysgolion ar y rhagdybiaeth y byddent ar agor drwy gydol y flwyddyn ysgol; felly mae'r cynnydd ym malansau ysgolion yn rhannol oherwydd bod costau ysgolion wedi bod yn llai na'r gyllideb a dderbyniwyd ganddynt oherwydd iddynt fod ar gau am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r Awdurdod wedi ceisio adennill yr elfen o'r gyllideb ddatganoledig ysgolion na chafodd ei defnyddio ac mae hynny wedi ychwanegu at falansau ysgolion.

- A oes goblygiadau i ddiogelwch y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y dyfodol oherwydd y cynnydd yn rhwymedigaethau net y cynllun.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod gwerth y Gronfa Bensiwn yn cael ei hasesu mewn dwy ffordd - un ohonynt yw asesiad blynyddol at ddibenion y cyfrifon sy'n seiliedig ar ragdybiaethau penodol y mae'n rhaid i'r Actwari eu defnyddio i'r perwyl hwnnw; y llall yw prisiad o'r gronfa gan yr Actwari bob tair blynedd er mwyn penderfynu ar gyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ac mae hynny'n seiliedig ar ragdybiaethau gwahanol. Eglurodd y ffactorau sydd ynghlwm â chyfrifo rhwymedigaethau'r gronfa a rhoddodd sicrwydd, er bod y diffyg yn y gronfa bensiwn yn ymddangos yn sylweddol ar bapur, tra bod y cynllun yn parhau i fod yn weithredol a thra bod cyfraniadau'n dal i gael eu gwneud i'r cynllun, ni fydd y ddyled yn cael ei gwireddu. Dangosodd y prisiad tair blynedd diwethaf gan yr actwari yn 2019 fod y gronfa mewn sefyllfa iach. O safbwynt yr Awdurdod, cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yw'r mater

DRAFT

pwysicaf gan ei fod yn cael ei gyllido gan y Cyngor a'i fod felly'n cael effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Cyllid yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd bod y gronfa werth oddeutu £2.3b.

- Bwriadau'r Cyngor mewn perthynas â chynorthwyo pobl sydd ag angen brys am dŷ o ystyried bod y Cyfrif Refeniw Tai yn dangos cynnydd o 3 uned yn unig yn stoc dai'r Cyngor ers 2019/20, a pha ddefnydd a wnaed mewn gwirionedd o'r adnoddau a glustnodwyd i'r diben hwn os na chawsant eu gwario ar gaffael stoc.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod cynlluniau tymor hir yr Awdurdod ar gyfer stoc tai ychwanegol wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT, gyda'r nod o wireddu 200 o unedau ychwanegol yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun. Daeth unedau i feddiant y Cyngor cyn mis Mawrth 2020 ond gan nad oeddent mewn sefyllfa i gael eu gosod, nid oeddent yn cael eu dynodi fel stoc. Fodd bynnag, cafodd yr unedau eu gosod ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd gan olygu fod mwy na thair uned wedi dod i ddefnydd yn 2020/21. Mae nifer o brosiectau mewn gwahanol ardaloedd ar yr Ynys wedi cael eu cwblhau, neu bron â chael eu cwblhau, ers diwedd mis Mawrth 2021 a byddant yn ychwanegu'n sylweddol at y stoc tai. Mae'r Cynllun Busnes yn seiliedig ar falans y CRT sydd yn £9.7m ar hyn o bryd; yn y tymor hir y bwriad yw gostwng balans y gronfa wrth gefn i £1m gan adael £8.7m i gyllido tai cyngor newydd, ac yn dilyn hynny defnyddir y gallu i fenthyca yn erbyn y CRT i barhau i ddatblygu tai. Mae manylion datblygiadau tai gwirioneddau a datblygiadau tai sydd wedi eu cynllunio, yn ogystal â Chynllun Ariannol y CRT, wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes. Mae gan yr Awdurdod gynlluniau hefyd i brynu tua 10 i 15 o gyn dai cyngor lle byddai hynny'n diwallu angen am dai a lle nad yw'r gost o ddod â'r unedau i safon sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru yn afresymol.

- O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor a risgiau cysylltiedig, yr angen i fonitro cyllid a ddyrennir o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i sicrhau bod Cymru'n derbyn ei hawl a'i haeddiant, gan fod pryder mai San Steffan yn hytrach na Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu faint o arian a ddyrennir ac ymhle y bydd yn cael ei wario. Mae'r gronfa Ffyniant yn cymryd lle cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd, a Chymru oedd un o'r gwledydd a oedd yn derbyn yr arian mwyaf, a bu i Ynys Môn elwa'n sylweddol.

  Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y Gronfa Adfywio Cymunedol sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac sy'n seiliedig ar broses gystadleuol, a'r Gronfa Codi'r Gwastad (*Levelling Up Fund*) sy'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith. Cyflwynwyd bid am gyllid sy'n cynnwys nifer o brosiectau o dan y Gronfa Adfywio Cymunedol a disgwylir am y canlyniad. O dan y Gronfa Codi'r Gwastad, nad yw'n derbyn bidiau eto, ni ddynodwyd Ynys Môn yn ardal blaenoriaeth un ond yn hytrach fe'i rhoddwyd yng nghategori 2 ac mae hynny'n bryder.

- A yw'n ddoeth defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gyllido gwariant refeniw gan nodi bod y Cyngor yn bwriadu gostwng balans y Gronfa Gyffredinol i gyllido unrhyw ddiffyg yn y gyllideb refeniw. Cyfeiriwyd at y ffaith bod Archwilio Cymru wedi nodi mewn gohebiaeth flaenorol nad yw'r gynaliadwy dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus neu wariant refeniw a gynlluniwyd.

  Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 na fu unrhyw gynlluniau, ac eithrio ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb refeniw ac mai'r nod yw cyllido'r gyllideb refeniw o'r Cyllid Allanol Cyfun a'r Dreth Gyngor. Ar gyfer 2021/22 mae £300k o'r cronfeydd wrth

gefn yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso’r gyllideb. Roedd y sylwadau a wnaed gan Archwilio Cymru yn gysylltiedig â gorwariant yn ystod blynyddoedd ariannol 2017/18 a 2018/19 ac a gyllidwyd wedyn o’r Gronfa Gyffredinol gan ostwng balans y Gronfa i lai nac isafswm lefel y gronfa wrth gefn o 5% (o’r gyllideb refeniw net) a osodwyd gan y Cyngor. Roedd y gyllideb refeniw wedi tanwario yn 2019/20 a 2020/21 gan arwain at gyfanswm presennol Balans y Gronfa Gyffredinol o £11.5m. Mae pryder y bydd y galw am rai gwasanaethau, yn enwedig yn y gwasanaethau Plant ac Oedolion, yn cynyddu wrth i gyfyngiadau Covid 19 lacio, gan arwain at orwariant yn y gyllideb ar gyfer 2021/22 sydd yn seiliedig ar lefel y galw yn ystod blwyddyn arferol. Mae dadl hefyd dros osod isafswm lefel y gronfa wrth gefn uwchlaw 5% yn ystod y blynyddoedd nesaf gan nad oes sicrwydd am ba hyd y pery unrhyw gynnydd yn y galw. Serch hynny, mae lle i ystyried defnyddio rhywfaint o falans y Gronfa Gyffredinol i ariannu prosiectau lle gellir dangos y byddent yn arwain at fuddiannau o ran creu arbedion refeniw a/neu wella perfformiad.

- Mae cyfradd gyflawni’r Rhaglen a’r gyllideb Gyfalaf yn 2020/21, sef 56.7%, wedi gostwng o gymharu â’r flwyddyn flaenorol ac, o ganlyniad i batrwm o danwariant, a oes angen i’r Cyngor adolygu ei amcanestyniadau ar gyfer y gyllideb gyfalaf a gwariant er mwyn osgoi’r risg o fenthyca heb fod angen a hefyd osgoi codi disgwyliadau nad ydynt wedyn yn cael eu gwireddu.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 er bod cyrraedd cyfradd gyflawni o 100% ar y gyllideb a’r rhaglen gyfalaf yn heriol oherwydd natur gymhleth a graddfa fawr rhai o’r prosiectau, roedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn un eithriadol gan i gyfyngiadau cysylltiedig â Covid gael effaith sylweddol ar waith cyfalaf yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol. Ni welwyd y cynnydd disgwyliedig mewn prosiectau eraill megis y Rhaglen Moderneiddio ysgolion yn ardal Llangefni oherwydd oedi wrth gwblhau’r cynigion terfynol a bu oedi hefyd wrth gyflenwi rhai o’r cerbydau fflyd yn gysylltiedig â’r contract gwastraff newydd. Mae’r Panel Sgriwtini Cyllid wedi gofyn i’r cyngor edrych ar amseriad y broses ar gyfer gosod y gyllideb gyfalaf, gyda’r bwriad o wneud hynny’n gynharach, fel bod gwaith yn cael ei amserlennu ar gyfer cyfnod mwy ffafriol yn ystod y flwyddyn a thrwy hynny gynyddu gwariant. Cafodd cyllideb gyfalaf 2021/22 ei hail-broffilio er mwyn rhoi ystyriaeth i’r cynlluniau a oedd wedi llithro yn 2020/21 a chafodd y gwariant yn gysylltiedig â nhw ei gynnwys yn y gyllideb. Felly mae’r gyllideb gyfalaf o £58.425m yn cynnwys llithriad ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn ogystal â chynlluniau a ychwanegwyd ar ôl gosod y gyllideb ac sy’n cael eu hariannu drwy grantiau.

  Cyn dod â’r cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i’r Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg a’i thîm am eu gwaith wrth gwblhau’r cyfrifon drafft o fewn yr amserlen ac o dan amgylchiadau heriol.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd nodi’r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2020/21.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Gorffennaf 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2020/21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth / Head of Service<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>ChristianBranch@ynysmon.gov.uk<br>01248 752491 |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Stephen Nicol<br>Prif Ymgynghordydd Iechyd a Diogelwch Corf./Principal Corporate Health & Safety Advisor<br>Rheoleiddio a Economaidd / Regulation and Economic<br>StephenNicoll@ynysmon.gov.uk<br>01248 751884 |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn ystod y cyfnod Ebrill 1af 2020 i 31 Mawrth 2021. | |

## Cyflwyniad

1. Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn nodi y bydd adroddiad blynyddol yn cael ei ysgrifennu mewn perthynas a pherfformiad Iechyd a Diogelwch. Cyflwynir yr adroddiad mewn fformat a nowdwyd gan WLGA i alluogi cynnwys gwybodaeth allweddol. Mae'r adroddiad yn bresennol yn Atodiad A

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

   - ystyried yr adroddiad a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys

# Adroddiad Iechyd a Diogelwch
# 2020 / 21

# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | 2 |
| 2 | Rheolaeth Gorfforaethol | 2 |
| 3 | Gwybodaeth Ystadegol | 3 |
| 4 | Darpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol | 7 |
| 5 | Partneriaethau | 14 |
| 6 | Ymgynghori ar y Cyd | 14 |
| 7 | Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol | 14 |
| 8 | Cyraeddiadau Allweddol | 14 |
| 9 | Perfformiad Diogelwch | 15 |
| 10 | Cynllun Gweithredu Strategol | 17 |
| 11 | Casgliad | 18 |
| 12 | Argymhelliad | 18 |


## 1 Cyflwyniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol.

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch sy'n rhoi manylion am gynnydd a wnaed o ran cwrdd â thargedau yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad ym maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad ym maes iechyd a diogelwch. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yn ystod y deuddeng mis a aeth heibio bu newidiadau sylweddol yn y gweithle i fynd i'r afael â'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig COVID 19.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol yn ystod y Pandemig COVID 19

Sefydlwyd Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT) i oruchwylio'r dasg o reoli ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r argyfwng Covid19. Roedd hyn yn sicrhau trosolwg o'r holl weithgareddau a'r gwaith ymateb angenrheidiol yn ystod yr argyfwng. Trwy gwrdd yn ddyddiol neu'n wythnosol (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau), llwyddodd yr EMRT i sicrhau bod rheoli gwybodus ac amserol yn cael ei gyflawni o ran gweithgareddau gwaith a darparu gwasanaeth.

Dynodwyd Uwch Swyddogion Cyfrifol ac is-grwpiau i ganolbwyntio ar bynciau penodol megis darparu Cyfarpar Diogelu Personol, cyfathrebu, Profi, Olrhain a Diogelu, brechu, ayb. Cafodd trefniadau gweithio gartref effeithiol a dibynadwy eu sefydlu ar unwaith ar gyfer gweithwyr swyddfa, a chafodd gwasanaethau a gweithwyr rheng flaen eu hysbysu ynghylch asesiadau risg penodol a mesurau diogelwch cysylltiedig.

Yn ystod argyfwng cafodd “Cyfnodau Clo” eu gorfodi a’u llacio fel rhan o’r ymateb cenedlaethol i’r frwydr yn erbyn y risg i iechyd ac er mwyn sicrhau nad oedd y GIG yn cael ei lethu o ran ei allu i ddarparu gofal.

Wrth i’r cyfnodau clo gael eu llacio fe wnaeth mwy a mwy o weithgareddau gwaith ailgychwyn. Cafodd Grŵp Ailagor ei sefydlu i asesu asesiadau risg a chynlluniau gweithredol er mwyn ailgychwyn gweithgareddau gwaith a chaniatáu “agor” adeiladau a gwasanaethau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn fe wnaeth y Grŵp asesu’r rhagofalon diogelwch a oedd ar waith a’u monitro’n gyson.

Mae’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i ddarparu parhad a llywodraethant i’r cyngor mewn perthynas â’i reolaeth a’i gamau gweithredu cyffredinol, ac mae penderfyniadau’n dal i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith. Cefnogwyd hyn drwy gyfarfodydd o’r Grŵp Penaethiaid er mwyn galluogi i unrhyw faterion gael eu dwyn gerbron yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i sicrhau bod camau’n cael eu cymryd i’w datrys, boed y rheiny’n faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch neu faterion eraill.

Ni chafodd y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2020/21 ei ddilyn oherwydd y rheidrwydd i fynd i’r afael â’r galw dybryd a newidiol yn ystod yr argyfwng. Mae mwyafrif y camau gweithredu yng nghynllun 2020/21 wedi eu hymgorffori yng nghynllun 2021/22, gan gydnabod y risgiau a’r galw ychwanegol sydd yn gysylltiedig â byw, gweithio a darparu gwasanaethau mewn byd lle mae Covid 19 yn bresennol. Bu rhywfaint o newidiadau a chydnabyddiaeth o’r posibilrwydd o orfod delio â materion a gwasanaethau wrth i’r argyfwng barhau.

## 3 Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â’r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2020/21. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp - Mân, Difrifol a RIDDOR.

Mân-ddamweiniau a digwyddiadau fyddai damweiniau/digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu’r golled yn sylweddol. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd neb wedi cael anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai’r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.


Mae damweiniau/digwyddiadau difrifol yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu lle'r oedd posibilrwydd o anaf neu golled o’r fath. Mae hynny’n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafodd neb anaf neu golled, ond lle gallai’r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Mae damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yn ddamweiniau a digwyddiadau sydd yn cwrdd â meini prawf penodol ac mae’n rhaid rhoi gwybod amdanynt i’r Awdurdod Gweithredol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau o’r fath i’w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y damweiniau a’r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau yn ymwneud â’r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.


## Yr holl ddigwyddiadau a adroddwyd

### Tabl 1 – Yr holl ddigwyddiadau 2020/21





| |
|---|
| Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2020/21 |
| Cyfanswm 655 |
| Mân 546 |
| Difrifol 108 |
| RIDDOR 1 |

### Tabl 2 – Yr holl ddigwyddiadau 2019/20




| |
|---|
| Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2019/20 |
| Cyfanswm 1275 |
| Mân 1096 |
| Difrifol 171 |
| RIDDOR 8 |

**Tabl 3 – Yr holl ddigwyddiadau 2018/19**




| |
|---|
| **Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2018/19** |
| **Cyfanswm 1365** |
| **Mân 1147** |
| **Difrifol 196** |
| **RIDDOR 22** |

Wrth ddadansoddi Tabl 1, 2 a 3 gwelir gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau yn 2020/21 (Tabl 1) o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol (Tabl 2 a 3). Credir bod y gostyngiad â chyswllt uniongyrchol â'r gostyngiad mewn gwasanaethau. Mae'n rhaid cofnodi digwyddiadau yn ymwneud ag ysgolion. Fel arfer mae digwyddiadau a gofnodir gan ysgolion ymhlith yr uchaf wrth edrych ar ddigwyddiadau fesul Gwasanaeth. Gan fod ysgolion wedi bod ar gau am gyfnodau yn ystod 2020/21 mae llai o ddigwyddiadau wedi cael eu cofnodi ar gyfer y Gwasanaethau Addysg.

Mae'r cynnydd yn ystod yr 2il a'r 3ydd Chwarter yn adlewyrchu hyn gan fod ysgolion wedi bod ar agor i ryw raddau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r rheoliadau llymach sydd ar waith o ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid 19 i gyfrif am y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau a adroddwyd.


**Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig**

Mae'r tablau isod yn dangos nifer y damweiniau a digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig.


**Tabl 4 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2020/21**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm<br>180</td></tr>
<tr><td>Mân<br>159</td></tr>
<tr><td>Difrifol<br>20</td></tr>
<tr><td>RIDDOR<br>1</td></tr>
</table>

**Tabl 5 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2019/20**

<table>
<tr><td rowspan="5">
</td><td>Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig)</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm<br>271</td></tr>
<tr><td>Mân<br>237</td></tr>
<tr><td>Difrifol<br>27</td></tr>
<tr><td>RIDDOR<br>7</td></tr>
</table>

**Tabl 6 – Digwyddiadau yn ymwneud â gweithwyr yn unig 2018/19**




| Cyfanswm nifer y digwyddiadau (Gweithwyr yn unig) |
|---|
| Cyfanswm 315 |
| Mân 270 |
| Difrifol 34 |
| RIDDOR 11 |

Wrth ddadansoddi Tabl 4, 5 a 6 gwelir bod gostyngiad wedi bod yn nifer y digwyddiadau yn ystod 202/21 (Tabl 4) o'i gymharu â'r ddwy flwyddyn flaenorol (Tabl 5 a 6). Credir bod hyn oherwydd bod llai o weithgarwch wedi bod oherwydd y cyfyngiadau Covid19. Yn yr un modd â'r ffigurau ar gyfer "Yr holl ddigwyddiadau" a adroddwyd (Tabl1) gwelwyd cynnydd yn ystod yr 2il a'r 3ydd Chwarter. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfnod lle bu mwy o weithgarwch. Mae'r cyfyngiadau llymach a'r gostyngiad mewn gweithgarwch yn ystod y 4ydd Chwarter yn cadarnhau hyn.

## 4 Y Ddarpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol

Mae'r pandemig parhaus wedi cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth hyfforddi yn ystod 2020-21. Cafodd sesiynau ystafell dosbarth eu gohirio a darparwyd hyfforddiant rhithiol lle bo modd.

O ganlyniad i'r pandemig, cafodd cyfanswm o 9 sesiwn Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ystafell ddosbarth eu canslo oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyrsiau yn ymwneud â Meddyginiaeth, Asesu Risg, Codi a Chario a Chymorth Cyntaf.

Er hyn, llwyddwyd i gynnal 13 sesiwn Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i gyfanswm o 81 o fynychwyr. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys sesiynau ystafell ddosbarth i **nifer gyfyngedig** o bobl ac asesiad COVID ymlaen llaw, yn ogystal â sesiynau rhithiol lle bo modd.


**Tabl 7 – Sesiynau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

| Cwrs | Sesiynau a gynhaliwyd | Nifer mynychwyr |
|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 Diwrnod) | 2 | 10 |
| Cwrs Gloywi Cymorth Cyntaf (2 Diwrnod) | 4 | 20 |
| Rheoli Risg | 1 | 12 |
| Rheoli Haint | 1 | 9 |
| Tystysgrif Genedlaethol Offer Tractor / Llwythwr Sgid | 3 | 10 |
| | | |
| Pasbort A-B | 2 | 20 |

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar E-Ddysgu fel dull o gwrdd ag anghenion hyfforddi yn ystod y pandemig. Trefnwyd mynediad at hyfforddiant E-Ddysgu yn ymwneud ag *Asbestos* ac mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu modiwl mewnol ar Reoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd (COSHH). Trefnwyd hyfforddiant E-Ddysgu yn ymwneud â Legionella yn ystod Mawrth 2021, ac mae y mae disgwyl i ragor ddod ar gael yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae ein modiwlau Iechyd a Diogelwch ac Offer Sgrin Arddangos hefyd wedi cael defnydd helaeth yn ystod y cyfnod hwn. Ar draws y 4 modiwl Iechyd a Diogelwch, roedd cyfanswm o 690 o bobl wedi eu cwblhau.

Cyfeiriwch at Dabl 2 isod am drosolwg o'r modiwlau E-Ddysgu a gafodd eu cwblhau. Fel y nodwyd uchod cafodd y cwrs *Legionella* ei lansio yn ystod Mawrth 2021, ac o'r herwydd mae'r data o ran faint sydd wedi ei gwblhau yn eithaf isel ar hyn o bryd. Hefyd, cynigwyd y cyrsiau *Legionella* ac *Asbestos* dim ond i gynulleidfa darged fach, tra bo'r cyrsiau eraill ar gael i'r holl staff.

**Tabl 8 – Nifer y Modiwlau E-Ddysgu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Gwblhawyd, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**




## Y Sector Gofal Cymdeithasol

Yn ogystal â'r Ddarpariaeth Hyfforddiant Corfforaethol, mae cyrsiau Iechyd a Diogelwch ac E-Ddysgu wedi parhau i gael eu trefnu ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol o amgylch y cyfyngiadau cyfredol.

Yn yr un modd, cafodd 9 sesiwn Iechyd a Diogelwch a oedd wedi cael eu trefnu ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol eu canslo, yn cynnwys sesiynau Asesu Risg a Chodi a Chario. Fodd bynnag, cawsant eu haddasu i fod yn sesiynau rhithiol a/neu E-Ddysgu.

Trefnwyd 7 sesiwn Iechyd a Diogelwch yn benodol ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn, ac fe'i mynychwyd gan gyfanswm o 57 o bobl. Cafodd y rhain eu cynnal yn rhithiol. Mae angen sesiynau dilynol ar gyfer y pasbort Codi a Chario A-F er mwyn ymdrin â'r elfennau mwy ymarferol.


**Tabl 9 – Sesiynau Iechyd a Diogelwch Gofal Cymdeithasol, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

| Cwrs | Sesiynau a gynhaliwyd | Nifer mynychwyr |
|---|---|---|
| Pasbort A-F | 2 | 16 |
| Rheoli Haint | 2 | 24 |
| Pathogenau a Gludir yn y Gwaed – Gofalwyr Maeth | 1 | 8 |
| Asesu Risg – Achrededig | 2 | 9 |

Manteisiwyd i'r eithaf ar E-Ddysgu yn ystod y cyfnod hwn. Bu i 861 o bobl gwblhau'r 8 modiwl Iechyd a Diogelwch a gafodd eu trefnu ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol a/neu eu gosod ar y Dangosfwrdd Gofal Cymdeithasol ar y Porth Dysgu.

Mae Tabl 4 isod yn rhoi trosolwg o nifer y modiwlau E-Ddysgu a gafodd eu cwblhau, fodd bynnag rhaid nodi bod y modiwlau Meddyginiaeth wedi cael eu trefnu ar gyfer cynulleidfa darged benodol, tra bo'r modiwlau eraill ar gael i'r holl staff drwy'r Dangosfwrdd Gofal Cymdeithasol.

**Tabl 10 – Nifer y modiwlau E-Ddysgu Iechyd a Diogelwch Gofal Cymdeithasol a Gwblhawyd, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**




| | Medication - Key module | Medication - Assessing competency | Infection Control | Manual Handling | Food Hygiene | Introduction to First Aid | Health & Safety in Care | Preventing Falls |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number completed | 8 | 14 | 571 | 268 | 286 | 198 | 234 | 90 |


## Iechyd a Llesiant

Mae iechyd a llesiant staff wedi bod yn flaenoriaeth allweddol yn ystod y pandemig, a rhoddwyd nifer o fentrau ar waith yn ystod 2021-21.

Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf ym Mawrth 2020, sefydlwyd tudalen Llesiant Gweithio o'r Cartref yn gyflym iawn i rannu gwybodaeth ac adnoddau am fygythiad parhaus y Coronafeirws, yn ogystal ag iechyd a llesiant yn gyffredinol.

Yn ystod y cyfnod hwn, ymwelodd 2,691 o ddefnyddwyr â'r dudalen 14,163 gwaith. Mae hyn yn amlygu'r derbyniad da a gafodd y dudalen ac mae'n dangos yn glir bod defnyddwyr wedi dychwelyd at yr adnodd drwy gydol y flwyddyn.

**Tabl 11 – Y Dudalen Llesiant Gweithio o’r Cartref: Nifer y Defnyddwyr Cofrestredig yn erbyn Cyfanaswn yr Ymweliadau, Mawrth 2020 – Mawrth 2021.**




Yn ystod Mawrth 2021, cafodd y dudalen ei hailwampio dan y Categori Iechyd a Llesiant ac erbyn hyn mae 7 tudalen unigol sydd yn ymdrin â meysydd Iechyd a Llesiant penodol. Cofrestrwyd 134 o ymweliadau gan ddefnyddwyr ar draws y 7 tudalen yn ystod mis olaf 2020-21.

Trefnwyd 21 o sesiynau corfforaethol yn ymwneud â meysydd Iechyd a Llesiant yn cynnwys lles ariannol, troseddau casineb, camddefnyddio sylweddol, iechyd meddwl a sesiwn holi ac ateb craff gyda Dr Dyfrig Ap-Dafydd ynglŷn â’r brechlynnau COVID-19. Mynychwyd y sesiynau gan gyfanswm o 223 aelod staff.

**Tabl 12 – Sesiynau Iechyd a Llesiant Corfforaethol, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

| Cwrs | Sesiynau a gynhaliwyd | Nifer mynychwyr |
|---|---|---|
| Seminar Cynllunio Ariannol Canol Gyrfa | 1 | 6 |
| Hyfforddiant Atal Twyll | 1 | 30 |
| Cyn-ymddeol | 2 | 6 |
| Y Sefydliad Lles Ariannol | 1 | 10 |
| Lles Ariannol - Diogelu | 1 | 11 |
| Lles Ariannol | 1 | 7 |
| Sesiwn Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb | 3 | 16 |
| Ymwybyddiaeth o Gamddefnyddio Sylweddol | 2 | 11 |
| Rhoi Hwb i'ch Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol | 1 | 20 |
| *Emailogic* - ymddygiad cwrtais a llesol wrth ddefnyddio e-bost | 2 | 44 |
| Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl i Staff | 3 | 23 |
| Llesiant Meddyliol yn y Gwaith, sesiwn i Reolwyr | 2 | 18 |
| Dr Dyfrig – Sesiwn Holi ac Ateb ar y Brechlynnau COVID-19 | 1 | 21 |

Hefyd, trefnodd y ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol 7 sesiwn yn gysylltiedig ag Iechyd Meddwl a Llesiant, gyda chyfanswm o 62 o bobl yn mynychu. Roedd y rhain yn ymwneud ag Iechyd Meddwl a Phryder yn bennaf.


**Tabl 13 – Sesiynau Iechyd a Llesiant Gofal Cymdeithasol, Ebrill 2020 – Mawrth 2021**

| Cwrs | Sesiynau a gynhaliwyd | Nifer mynychwyr |
|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl | 2 | 12 |
| *i-act* – Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | 2 | 13 |
| | | |
| Ymwybyddiaeth o Bryder i Reolwyr | 1 | 13 |
| Ymwybyddiaeth o Bryder | 2 | 24 |

Unwaith eto, roedd E-Ddysgu yn hynod werthfawr yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaed defnydd o'r modiwlau presennol, yn ogystal â'r modiwlau Ymwybyddiaeth o Bryder a Gwydnwch Personol mwy diweddar  a gafodd eu lansio tuag at ddiwedd Chwefror 2021.

Ar draws y 6 modiwl fe wnaeth 752 o bobl eu cwblhau yn ystod 2020-21. Mae'r modiwlau a gwblhawyd wedi eu nodi fesul modiwl yn Nhabl 8 isod, a nodir bod y niferoedd sydd wedi cwblhau'r modiwlau Gwydnwch Personol ac Ymwybyddiaeth o Bryder yn is oherwydd eu bod wedi cael eu lansio'n hwyrach na'r modiwlau eraill.

**Tabl 14 – Nifer y modiwlau E-Ddysgu Iechyd a Llesiant a Gwblhawyd, Ebrill 2020-Mawrth 2021**




| | Anxiety Awareness | Drug and Alcohol Awareness | Email Stress | Healthy Lifestyles | Managing Your Priorities | Personal Resilience |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Number completed | 59 | 205 | 158 | 177 | 106 | 47 |

Er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, llwyddodd y Tîm Dysgu a Datblygu i ddod o hyd i ddulliau hyfforddi eraill i sicrhau bod staff yn parhau â'u rolau'n ddiogel.

Rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal nifer o sesiynau Iechyd  a Llesiant i gefnogi staff yn ystod y cyfnod anodd hwn ac mae'r adborth yn awgrymu bod staff wedi croesawu'r sesiynau hyn.

## 5 Partneriaethau

### Timau Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru

Prin fu'r gwaith rhwng y Timau Iechyd a Diogelwch yng Ngogledd Cymru yn ystod yr argyfwng COVID19.  Bu rhywfaint o gyfathrebu mewn perthynas â cheisiadau am gyngor ynglŷn â materion penodol yn ymwneud â COVID19.

Roedd y rhan helaeth o'r gwaith yn ystod yr argyfwng COVID 19 yn ymwneud â sicrhau Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith a waned gan y Grwp i oruchwylio hyn wedi bod yn allweddol o ran rheoli a monitro cyflenwadau. Mae'r gwaith a waned gan staff Canolfan Byron wedi bod yn hanfodol bwysig o ran sicrhau bod darpariaeth PPE i staff Cyngor Sir Ynys Môn.

**Yr Awdurdod Gweithredol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (HSE)**

Mae'r HSE wedi gwneud rhywfaint o waith rhagweithiol mewn perthynas â COVID19. Archwiliwyd chwe ysgol ar Ynys Môn fel rhan o'r rhaglen i asesu mesurau rheoli COVID. Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys gan yr HSE yn ystod yr ystod yr archwiliadau hyn. Cwblhawyd yr archwiliadau ar y cyd â'r Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cynorthwyol.

O ganlyniad i'r ymchwiliad i'r achos o Syndrom Dirgryniad Llaw-Braich (HAVS) a adroddwyd wrth yr HSE ar 12fed Rhagfyr 2018 rhoddwyd Hysbysiad Gwella i Gyngor Sir Ynys Môn. Daeth cydymffurfiaeth â'r hysbysiad i ben ar 27ain Ionawr 2020 a derbyniwyd llythyr i gadarnhau hyn. Mae'r dulliau rheoli a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r Hysbysiad Gwella yn dal i gael eu monitro. Maent yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaethau Tai, y Swyddog Iechyd a Diogelwch Tai a'r adran Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

**Archwiliadau Ymatebol**

Mewn perthynas ag adrodd am brofion COVID positif a chyswllt posibl â'r gweithle, cynhaliwyd archwiliadau dilynol gan yr adran Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Cynhaliwyd archwiliadau dilynol yn:

Ysgol Uwchradd Bodedern
Ysgol Moelfre
Ysgol y Ffridd
Ysgol Corn Hir
Ysgol Morswyn

## 6 Ymgynghori ar y Cyd

**Y Grwp Iechyd a Diogelwch**

Fel rhan o'r mesurau rheoli COVID 19 cafodd cyfarfodydd eu gohirio i atal cyswllt agos rhwng staff. Cynhaliwyd cyfarfod rhithiol o'r Grwp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod yr argyfwng. Roedd y cyfarfod yn gyfle i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch o wasanaethau ledled y cyngor rannu gwybodaeth a phrofiad o'r mesurau rheoli ac addasiadau a roddwyd ar waith i ddelio â'r risgiau'n gysylltiedig â COVID 19.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn ystod y flwyddyn, datblygodd y cyngor asesiadau risg ar gyfer ei weithgareddau a'i adeiladau. Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi ymgynghori â'r Undebau drwy gydol y broses.

## 7 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol dwyieithog gan Gyngor Gwynedd, sy'n cael ei reoli gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Mae ychydig dros 450 o apwyntiadau ar gael i staff bobl blwyddyn. Caiff y rhain eu dyrannu drwy atgyfeiriad gan reolwr llinell neu drwy hunan-atgyfeiriad gan yr aelod staff. Mae tua 200 o apwyntiadau ar gael i staff sy'n credu y gallant elwa o ffisiotherapi. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael drwy atgyfeiriad gan y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn dilyn ymgynghoriad.

## 8 Cyraeddiadau Allweddol

### Y Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng (EMRT)

Gellid ystyried rheolaeth yr EMRT o'r argyfwng Covid19 yn gyrhaeddiad allweddol yn ystod y flwyddyn. Llwyddwyd i sefydlu a chynnal system a grŵp rheoli i oruchwylio'r holl weithgarwch a chraffu arnynt. Mae hyn wedi caniatáu i wasanaethau barhau mewn rhai meysydd, ac ailagor gwasanaethau ac ailddyrannu adnoddau yn ôl y galw. Mae hyn yn cynnwys rhoi addasiadau ar waith i sicrhau bod gweithleoedd ac amgylcheddau wedi eu diogelu rhag Covid ar draws yr adrannau gwasanaeth amrywiol.

Mae'r EMRT wedi sicrhau cyswllt â phartneriaid allanol ac wedi gweithio gyda hwy'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

### Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

Er yr anawsterau a'r ansicrwydd ar y dechrau, ystyrir bod llwyddiant y Cyngor i sicrhau cyflenwadau PPE drwy gydol yr argyfwng Covid 19 yn gyrhaeddiad allweddol. Roedd sefydlu a rheoli storfa ganolog ar gyfer PPE yn waith prosiect llwyddiannus. Roedd cyfraniad n staff Canolfan Byron yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Yn ystod y camau cynnar cefnogwyd y gwaith hwn gan yr Adain Eiddo.

### Y Porth Dysgu

Mae'r addasiadau cyflym ac effeithlon a waned i'r Porth Dysgu fel ffordd o ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant penodol mewn perthynas â'r risgiau a'r rheolau sydd yn gysylltiedig â Covid19 hefyd i'w hystyried yn gyraeddiadau allweddol. Mae hyn wedi galluogi i staff a phartneriaid allanol gael mynediad at wybodaeth berthnasol i'w cynorthwyo mewn perthynas â'u hiechyd a'u diogelwch.

### Staff

Dylid ystyried hyblygrwydd ac ymrwymiad staff o bob gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth mewn dull diogel drwy gydol yr argyfwng yn gyrhaeddiad allweddol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau newydd er enghraifft dosbarthu parseli bwyd a darparu trafnidiaeth i apwyntiadau meddygol i'r cyhoedd. Mae staff rheng flaen wedi parhau i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl a chymunedau Ynys Môn er gwaetha'r risg i'w diogelwch personol. Dylid cydnabod hefyd y gwasanaethau a gafodd eu darparu'n barhaus gan staff a oedd yn gweithio o'r cartref.

## 9 Perfformiad Diogelwch

Ni ddylid tanwerthfawrogi graddfa'r gwaith a waned i sicrhau bod y Cyngor â'r gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau. Rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021 datblygwyd fformatau newydd ar gyfer asesu risgiau, cyfarwyddyd newydd a chynlluniau gweithredol newydd i fynd i'r afael â'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â Covid19.

Roedd yr archwiliadau rhagweithiol hyn yn canolbwyntio ar fesurau i reoli Covid19. Fe'i cynhaliwyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ym mhob ysgol a chartref gofal gan mai'r safleoedd hyn a oedd â'r risg mwyaf.

Datblygwyd cyfarwyddyd penodol ar ddefnyddio PPE a mesurau eraill i leihau'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â Covid19.

Bu'n rhaid ailasesu pob safle a gweithgarwch i ystyried y risgiau a oedd yn gysylltiedig â Covid19. Roedd hyn yn cynnwys dod o hyd i ffyrdd o addasu gweithleoedd, er enghraifft sgriniau, mesurau cadw pellter cymdeithasol, arwyddion ychwanegol a chyfarpar diheintio. Bu'n rhaid ystyried y rheolau ar gyfer pob safle a'u rhoi ar waith. Bu'n rhaid monitro'r gweithdrefnau newydd i asesu eu heffeithiolrwydd ac i asesu cydymffurfiaeth â'r mesurau rheoli newydd hyn.

Roedd yn rhaid i'r broses asesu risg ystyried pa wasanaethu a fyddai'n parhau er enghraifft gwaith cynnal a chadw brys i gartrefi, gwaith gorfodaeth, darparu gofal ac unrhyw waith hanfodol arall. O ganlyniad bu'n rhaid cyflwyno dulliau rheoli newydd i ddiogelu staff a chleientiaid.

Roedd y gwaith newydd a gyflwynwyd yn cynnwys darparu lloches i bobl ddigartref, y galw cynyddol am fanciau bwyd a dosbarthu parseli bwyd. Roedd pob un o'r rhain yn gofyn am asesiad risg a dulliau gweithio newydd.

Bu'n rhaid adolygu'r gwasanaeth trafnidiaeth a'r ddarpariaeth cynnal a chadw. Bu'n rhaid caniatáu i fwy a mwy o bobl weithio o bell/o'r cartref mewn ffordd ddiogel.

Yn ystod y broses, fe wnaeth y tîm Risg ac Yswiriant a'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol asesu pob asesiad risg a gweithdrefn a chyflwyno eu sylwadau i'r Grŵp Ail-agor cyn iddynt gael eu cymeradwyo'n derfynol gan yr EMRT. Sicrhaodd hyn reolaeth fwy llym o'r holl weithgareddau gwaith.

Mae hyn yn cyfateb i 482 asesiad risg rhwng Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r broses asesu risg yn broses barhaus ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu asesiadau ac adolygiadau risg newydd i sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn dal i fod yn gyfredol.

Mae Tabl 15 isod yn rhoi canllaw ar nifer yr asesiadau risg ac adolygiadau a nifer y dogfennau Canllaw Corfforaethol a ddatblygwyd yn ystod 2020/21.

**Tabl 15 – Nifer yr asesiadau risg a gafodd eu datblygu a'u hadolygu a nifer yr adolygiadau**

| Safle/Gweithgarwch | Nifer y Safleoedd a/neu Weithgareddau | Nifer yr Asesiadau Risg | Nifer yr Adolygiadau |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 46 | 69 | 3 |
| Dechrau'n Deg | 6 | 14 | 2 |
| Llyfrgelloedd | 11 | 30 | 2 |
| Archifau | 1 | 2 | 2 |
| Oriel Môn | 3 | 11 | 2 |
| Canolfannau | 4 | 11 | 1 |
| Gweithgareddau Hamdden | 3 | 3 | 1 |
| Cartrefi Gofal/Trefniadau Ymweld | 5 | 12 | 3 |
| Swyddfeydd | 4 | 19 | 2 |
| Ymweliadau Safle/Archwiliadau | 3 | 32 | 1 |
| Cerbydau Fflyd | 3 | 6 | 1 |
| Safleoedd Gwastraff | 2 | 2 | 1 |
| Cefn Gwlad/Morwrol | 12 | 12 | 2 |
| Toiledau | 1 | 4 | 2 |
| Gweithgareddau Cymunedol | 12 | 12 | 1 |
| Tai | 10 | 10 | 1 |
| Storfa PPE | 1 | 2 | 1 |
| Gweithgareddau / hyfforddiant /lleoliadau cyffredinol | 9 | 9 | 1 |
| Cyfanswm | 136 | 260 | 29 |
| Dogfennau Canllaw | | | |
| Pynciau | | Adolygiadau / Diwygiadau | |
| 18 | | 3 | |

Disgwylir i sefydliadau hysbysu'r HSE ynglŷn â digwyddiadau penodol.  Mae amserlenni ar gyfer adrodd ac ymateb i'r math yma o ddigwyddiadau. Mae'r dangosydd perfformiad ar gyfer y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn mynnu ymateb i ddigwyddiadau RIDDOR o fewn pum diwrnod.

Adroddwyd am un digwyddiad RIDDOR yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Cafodd ei adrodd oddi mewn i'r cyfnod adrodd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Rhaid adrodd am achosion o ddal COVID19 yn uniongyrchol o ganlyniad i weithgareddau gwaith.

Mae’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi derbyn adroddiadau am unigolion a oedd yn arddangos symptomau COVID19 (achosion heb eu cadarnhau). Roedd y rhain mewn ysgolion yn bennaf ac yn ymwneud â disgyblion a oedd yn arddangos symptomau ac a gafodd eu hanfon adref.  Nid oedd pob digwyddiad yn ymwneud ag un person yn unig.

**Tabl 16 – Nifer y digwyddiadau Covid19 a adroddwyd**

| | |
|---|---|
| Nifer y digwyddiadau a adroddwyd | 145 |

## 10 Cynllun Gweithredu Strategol

| Cynllun Gweithredu Strategol | |
|---|---|
| **CYNLLUNIO** | Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r meysydd gwella hysbys.<br>Caiff y Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ei gytuno gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.<br><br>Dylid cynllunio Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau i fynd i'r afael â'r meysydd gwella penodol ar gyfer Gwasanaethau perthnasol. Dylai'r Cynlluniau hyn ystyried sut y caiff Gwasanaethu "busnes fel arfer" eu rheoli. Caiff y Cynlluniau eu cytuno gan y Cyfarwyddwr neu Bennaeth y Gwasanaeth perthnasol.<br><br>Oherwydd yr argyfwng COVID19 bydd angen camau gweithredu ymatebol. Fe all hyn olygu tynhau neu lacio cyfyngiadau yn y gwaith neu ddarparu gwasanaethau newydd i helpu'r gymuned â materion yn ymwneud â COVID19.<br><br>Caiff cynlluniau ac Asesiadau risg eu datblygu gan y Gwasanaethau perthnasol a fydd ynghlwm â'r gwaith. Caiff y Cynlluniau a'r Asesiadau Risg eu cyflwyno i'r EMRT i'w hystyried a'u cytuno cyn eu rhoi ar waith. |
| **GWEITHREDU** | Rhaid i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Gael ei weithredu gan bob Gwasanaeth – dylid cyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun yn ôl y galw. Cynhelir proses fonitro drwy ofyn i Wasanaethau adrodd wrth y Grwp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynglŷn â'u cynnydd. Bydd yr adroddiadau cynnydd yn seiliedig ar yr wybodaeth yn y Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau a fydd yn cael eu rhoi ar waith gan y Gwasanaethau Perthnasol – bydd y camau gweithredu'n cael eu cyflawni yn ôl y galw. Cynhelir proses fonitro a bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno i gyfarfodydd perthnasol o'r Tîm Rheoli Gwasanaethau neu'r Grwp Iechyd a Diogelwch. Bydd Gwasanaethau'n adrodd ar gynnydd eu Cynlluniau i'r Grwp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br><br>Yr EMRT fydd yn cytuno i lacio cyfyngiadau ar Wasanaethau neu ddarparu gwasanaethau newydd/ychwanegol. |
| **ADOLYGU** | Cynhelir adolygiadau chwarterol ar gynnydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i'r Grwp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.<br>Bydd yr adolygiadau'n cynnwys cynnydd y camau gweithredu, effeithiolrwydd y camau a roddwyd ar waith a chamau gweithredu pellach oherwydd sefyllfa newidiol y pandemig COVID19<br><br>Cynhelir adolygiadau chwarterol ar gynnydd y Cynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gwasanaethau gan y Tîm Rheoli Gwasanaeth neu'r Grwpiau Iechyd a Diogelwch.<br><br>Bydd yr adolygiadau'n cynnwys cynnydd y camau gweithredu, effeithiolrwydd y camau a roddwyd ar waith a chamau gweithredu pellach oherwydd sefyllfa newidiol y pandemig COVID19 |

## 11 Casgliad

Mae'r argyfwng COVID19 wedi llywio gwaith y cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Trwy sefydlu'r EMRT i oruchwylio'r gwaith o reoli'r Cyngor yn ystod yr argyfwng llwyddwyd i roi mesurau rheoli llymach ar waith i fynd i'r afael â'r risg i iechyd.

Mae'r broses o gyflwyno cynlluniau ac asesiadau risg i'r EMRT cyn caniatáu i unrhyw waith ddechrau wedi helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni yn y dull mwyaf diogel posibl. Mae'r broses wedi sicrhau tryloywder wrth asesu'r gwaith.

Trwy gyflwyno Adroddiadau Sefyllfa wythnosol rhoddwyd gwybodaeth dda i'r uwch reolwyr ynglŷn â'r sefyllfa bresennol ac o safbwynt capasiti'r staff, gwaith ar y gweill a meysydd pryder posibl. Dylid ystyried a oes gan y Cyngor y gallu i barhau â'r math yma o fonitro yn y dyfodol mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch.

Bu'n rhaid gohirio rhannau o'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2020 i 2021 i ddelio â'r argyfwng.

Mae'n bosib y bydd rhai o'r ffrydiau gwaith a gafodd eu datblygu yn ystod yr argyfwng o fudd yn y dyfodol. Datblygwyd y Porth Dysgu i gynnwys mynediad at ddogfennau Canllaw Iechyd a Diogelwch penodol i COVID19 a gelid parhau â'r gwaith hwn i ddarparu hyfforddiant a gwybodaeth am bynciau eraill yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch

## 12 Argymhelliad

Dylai'r Cyngor ddilyn y cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Cydnabyddir oherwydd sefyllfa barhaus y pandemig COVID19, y gall y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gael eu gohirio neu eu disodli â chamau brys i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID19.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **20 GORFFENNAF 2021** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2020/21** |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON**<br>**(EST. 2675)** |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, mae disgwyl i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor llawn ar ôl i'r Pwyllgor hwn graffu arno.

**1. Rhagarweiniad**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus).

Yn ystod 2020/21, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2020);
- adroddiad diweddariad canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2021);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod raid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys cyn yr adroddiwyd arnynt i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini yr Aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

At hynny, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2020/21:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);

- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2020/21 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu'r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (*Minimum Revenue Provision* - MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2021/22 a'r tu draw i hynny; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog** – Cafodd y Gyfradd Banc ei thorri o 0.75% i 0.25% ac yna i 0.10% ym mis Mawrth 2020 a ni fu unrhyw newid drwy gydol blwyddyn ariannol 2020/21.

**2.2 Yr Economi** - y Deyrnas Unedig - bydd blwyddyn ariannol 2020/21 yn cael ei chofnodi yn y llyfrau hanes fel blwyddyn y pandemig. Oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ddiwedd mis Mawrth 2020, gwnaed niwed aruthrol i economi nad oedd wedi paratoi ar gyfer y fath ddigwyddiad. Achosodd hyn ddirywiad economaidd a oedd yn waeth na'r un a achoswyd gan yr argyfwng ariannol yn 2008/09. Cymharol ychydig o niwed a achoswyd gan ail gyfnod clo byr ym mis Tachwedd 2020 ond, erbyn y trydydd cyfnod clo ym mis Ionawr 2021, roedd busnesau ac unigolion wedi datblygu i fod yn fwy gwydn wrth addasu i ffyrdd newydd o weithio yn ystod cyfnod clo o dri mis, felly, achoswyd llawer llai o niwed na'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Roedd dechrau cyflwyno brechiadau ym mis Tachwedd 2020 yn newid y sefyllfa'n llwyr. Mae'r ffordd y mae'r DU a'r Unol Daleithiau wedi arwain y byd wrth gyflwyno rhaglen frechu gyflym sy'n addo arwain at ddychwelyd i rywbeth tebycach i fywyd arferol yn ystod ail hanner 2021, wedi bod yn allweddol o ran cyflymu'r adferiad economaidd ac ailagor yr economi. Yn ogystal, mae cyfradd cynilo aelwydydd wedi bod yn eithriadol o uchel ers y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020 ac, felly, mae digon o alw cronedig a grym prynu wedi eu cadw yn ôl ar gyfer gwasanaethau yn y sectorau hynny sy'n parhau mewn dirwasgiad megis bwytai, teithio a gwestai cyn gynted ag y byddant yn ailagor. Felly, disgwylir y gallai economi'r DU adfer i'r un lefel o weithgarwch economaidd â chyn y pandemig yn ystod chwarter 1 2022.

Cymerodd y Llywodraeth a Banc Lloegr gamau cyflym ym mis Mawrth 2020, pan oedd yr argyfwng yn ei anterth, i ddarparu cymorth i farchnadoedd ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n briodol, ac i gefnogi'r economi a gwarchod swyddi.

Cafodd y Gyfradd Banc ei thorri o 0.75% i 0.25% gan y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) ac yna i 0.10% ym mis Mawrth 2020, a chyflwynwyd rhaglen esmwytho meintiol (quantitative easing - QE) gwerth £200bn (prynu giltiau er mwyn lleihau costau benthyca ym mhob rhan o'r economi drwy leihau arenillion o giltiau). Bu cynnydd o £100bn yn y QE gan yr MPC ym mis Mehefin a £150bn ym mis Tachwedd, gan fynd â'r cyfanswm i £895bn. Er na fu newid yn y Gyfradd Banc yn ystod gweddill y flwyddyn, roedd y marchnadoedd ariannol yn pryderu y gallai'r MPC dorri'r Gyfradd Banc a chreu cyfradd negyddol; cafodd hynny ei ddiystyru yn bendant yng nghyfarfod yr MPC ym mis Chwefror 2021 pryd sefydlwyd na fyddai banciau masnachol yn gallu gweithredu cyfraddau negyddol am o leiaf chwe mis – ond erbyn hynny roedd disgwyl y byddai adferiad cryf yn yr economi ac na fyddai angen cyfraddau negyddol.

Yr ychwanegiad allweddol ym mlaen-ganllawiau'r Banc y mis Awst oedd ymadrodd newydd yn y datganiad polisi, sef "nid yw'n bwriadu tynhau polisi ariannol nes bydd tystiolaeth glir fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i gael gwared ar gapasiti sbâr a chyflawni'r targed o 2% yn gynaliadwy". Ymddengys bod hynny wedi'i gynllunio i ddweud, i bob pwrpas, hyd yn oed os bydd chwyddiant yn codi i 2% mewn rhyw ddwy flynedd, peidiwch â disgwyl i'r MPC gymryd unrhyw gamau i godi'r Gyfradd Banc - nes y byddant yn gallu gweld yn glir bod lefel chwyddiant yn mynd i fod yn gyson uwch na'r targed os na fydd yn cymryd camau i godi'r Gyfradd Banc. Mae hyn yn gosod y bar yn uchel ar gyfer codi'r Gyfradd Banc ac ni ddisgwylir unrhyw gynnydd cyn mis Mawrth 2024 ac, o bosib, am gyhyd â phum mlynedd. Mae chwyddiant wedi bod ymhell o dan 2% yn ystod 2020/21; disgwylir y bydd yn codi i ychydig dros 2% tua diwedd 2021, am gyfnod byr, ond ffactor dros dro fydd hyn ac, felly, nid yw'n peri pryder i'r MPC.

Mae'r Canghellor wedi darparu sawl cylch o gymorth i fusnesau drwy gyfrwng benthyciadau rhad a mesurau eraill, ac mae o wedi gwarchod swyddi drwy dalu i roi gweithwyr ar y cynllun cadw swyddi (ffyrlo). Mae'r cymorth hwn wedi costio'n ddrud yn nhermau'r diffyg yng nghyllideb y Llywodraeth, a chwyddodd y diffyg yn 2020/21 a 2021/22 fel bod cymhareb y Ddyled i Gynnyrch Gros Domestig (GDP) yn cyrraedd oddeutu 100%. Roedd y Gyllideb ar 3 Mawrth 2021 yn cynyddu cymorth ariannol i'r economi a swyddi yn ystod 2021 a 2022, gyda chynnydd sylweddol mewn trethi yn y tair blynedd wedi hynny i gynorthwyo i dalu am gost y pandemig. Bydd hyn yn helpu i gryfhau adferiad yr economi ymhellach yn dilyn y pandemig ac i adfer cyllid y llywodraeth i sefyllfa lle bydd y gyllideb yn cydbwyso, ar sail gwariant ac incwm cyfredol, yn 2025/26. Bydd hyn yn atal cynnydd pellach yng nghymhareb y Ddyled i GDP o 100%. Un maes sy'n peri pryder, serch hynny, yw fod dyled y llywodraeth ddwywaith mor sensitif i gynnydd mewn cyfraddau llog yn awr nag oedd cyn y pandemig oherwydd gweithrediadau QE yn cymryd lle dyleb tymor hir sefydlog ar gyfer dyled cyfradd symudol; felly, mae yna gymhelliant cryf i'r Llywodraeth hyrwyddo cadw'r Gyfradd Banc yn isel e.e. drwy ddefnyddio polisi ariannol ar y cyd â'r camau polisi ariannol gan Fanc Lloegr i gadw chwyddiant rhag codi'n rhy uchel, a / neu drwy ddiwygio mandad polisi'r Banc i ganiatáu targed uwch ar gyfer chwyddiant.

2.3 **Brexit** - Roedd y cytundeb terfynol ar 24 Rhagfyr 2020 yn cael gwared â risg gostyngiad (*downside risk*) sylweddol i economi'r DU. Dim ond masnach oedd wedi'i gynnwys yn y cytundeb cychwynnol, felly, mae angen gwneud mwy o waith ar y sector gwasanaethau lle caniatawyd cyfwerthedd dros dro yn y ddau gyfeiriad rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd; mae angen ffurfioli hynny yn barhaol yn awr. Roedd llawer o darfu ar fasnach ym mis Ionawr wrth i llenwi ffurflenni greu rhwystr aruthrol i fasnach. Ymddengys bod y sefyllfa wedi lleddfu ychydig ers hynny ond mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn i leihau'r anawsterau, sy'n parhau i fod yn ddifrifol mewn rhai meysydd.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

3.1 **Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2020/21** – Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus gofynnol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf y sut y cyllidwyd hyn:-

| | **Amcangyfrif 2020/21 (£'m)** | **Gwirioneddol 2020/21 (£'m)** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 39 | 20 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 19 | 13 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **58** | **33** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 23 | 16 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 5 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 1 | 2 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 16 | 7 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **15** | **3** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **0** | **0** |

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylw |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.419 | Yn ystod rhan olaf 2020/21, dyfarnwyd £1.183m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf y penderfynwyd arnynt yn lleol yn 2020/21, yn lle defnyddio adnoddau'r Awdurdod ei hun. Defnyddir y cyllid a arbedwyd gan yr Awdurdod o'r grant hwn yn awr i gyllido gwaith cyfalaf mewn ysgolion yn 2021/22. |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 0.392 | Arweinir gan y galw i raddau helaeth ac mae'n rhaid cwrdd â rhai meini prawf i fod yn gymwys i dderbyn grant. Yn benodol, mae'n rhaid cynnal prawf modd i bob darpar gleient a all effeithio'n negyddol ar nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i dderbyn grant. |
| Cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif | 6.800 | Mae ymgynghori pellach wedi gohirio cychwyn y cynlluniau a ddewiswyd. Fodd bynnag, bwriedir cychwyn gwaith ar y safle yn gynnar yn 2021/22 mewn perthynas â'r cynllun Band A olaf. |
| Contract Gwastraff | 2.199 | Mae oedi wrth gyflenwi rhai cerbydau fflyd yn golygu y bydd hyn yn llithro i 2021/22. Disgwylir y bydd y cerbydau sy'n weddill yn cael eu cyflenwi yn gynnar yn 2021/22. |
| Porth Twristiaeth | 1.016 | Roedd oedi yn y trefniadau tendro yn golygu bod rhaid ail-dendro'r gwaith yn chwarter 4. Mae hwn yn gynllun parhaus ac mae cyllideb newydd wedi cael ei dyrannu iddo yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22. |
| Cynlluniau Llifogydd Amrywiol | 1.893 | Mae rhai cynlluniau'n parhau ac yn pontio gwahanol flynyddoedd ariannol. Bu oedi mewn cynlluniau eraill a chytunwyd ar estyniad amser gyda Llywodraeth Cymru i ddwyn y cyllid ymlaen. |
| Adfywio Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun) | 0.866 | Roedd sawl achos o oedi drwy gydol y flwyddyn yn golygu na ddatblygodd prosiectau ar y cyflymder a fwriadwyd yn wreiddiol, gan arwain at amrywiad mor fawr yn y gyllideb. Dyrannwyd cyllideb newydd ar gyfer 2021/22. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.493 | Mae gwaith yn parhau i ailgynllunio'r cynllun er mwyn lleihau'r costau i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. |
| Prosiectau TG | 0.292 | Cafwyd oedi oherwydd Covid ac, yn ogystal, roedd angen adnewyddu llai o eitemau nag a ragwelwyd. |
| Gwaith cyfalaf ar asedau cyfredol | 0.255 | Oedi oherwydd diffyg ymateb i dendr ond mae gwaith ar y safle ar hyn o bryd ac yn mynd rhagddo. |
| Gwelliannau Hamdden | 0.243 | Oherwydd i'r canolfannau hamdden fod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a bod y tîm rheoli wedi symud i gynorthwyo gyda gwaith Covid, nid aeth y prosiectau rhagddynt. Mae prosiectau ar y gweill a chynlluniwyd i'r gwaith barhau yn 2021/22. |
| Grant cyfalaf gofal plant | 0.523 | Nid yw safleoedd ysgol eraill wedi cael eu cwblhau eto ac mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu estyniad hyd at fis Mawrth 2022 i wario'r grant sy'n weddill. |

**3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau** – Mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau y gellir eu defnyddio | Drafft 31-Maw-21 £'m | Terfynol 31-Maw-20 £'m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor | 11.594 | 7.060 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 14.079 | 8.760 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 9.743 | 8.597 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 4.015 | 0.197 |
| Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf | 0.767 | 1.330 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **40.198** | **25.944** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.047** | **5.180** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **45.245** | **31.124** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2020/21 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu sefyllfa arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw arian allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r GCC –** Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod yn cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £124.5m ar 31 Mawrth 2021 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

| | Gwirioneddol 2020/21 £'m | Amcangyfrif 2021/22 £'m | Amcangyfrif 2022/23 £'m |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllid Cyfalaf | 136.6 | 146.1 | 157.6 |

**3.3.2 Benthyca mewnol** - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn y sefyllfa fenthyca fewnol oedd gorgyllido gan £2.3m. Trwy ad-dalu'r benthyciad tymor byr o £10m gan y PWLB a gymerwyd ym mis Mawrth 2020, a chan na chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd arall yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, y sefyllfa benthyca mewnol ar 31 Mawrth 2021 yw £12.1m:-

| | 31 Mawrth 2020 Gwirioneddol £'m | 31 Mawrth 2021 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 139.2 | 124.5 |
| GCC | 136.9 | 136.6 |
| (Tangyllido) / Gorgyllido'r GCC | 2.3 | (12.1) |

**3.4** **Benthyciadau eraill –** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill.

**3.5** **Ad-dalu dyledion –** Aeddfedodd tri benthyciad gan y PWLB yn ystod y flwyddyn. Aeddfedodd benthyciad am £3.5m ar 8 Mehefin 2020. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis Chwefror 1995 ar gyfradd llog o 8.625%. Aeddfedodd benthyciad am £1.0m ar 18 Ionawr 2021. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis Mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%. Aeddfedodd benthyciad o £10.0m ar 18 Mawrth 2021. Cymerwyd y benthyciad gwreiddiol ym mis Mawrth 2020 ar gyfradd llog o 2.05%. Nid oes unrhyw fenthyciadau tymor byr yn ddyledus.

**3.6** **Buddsoddiadau** - Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £57m, yn amrywio rhwng £25m a £57m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.053m ar ôl addasu ar gyfer y gostyngiad posib yn y gyfradd yn 2020/21 a amcangyfrifwyd ar adeg paratoi'r gyllideb. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £43.7m log o £0.035m ar gyfradd llog cyfartalog o 0.079%. Cyfrannodd buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill, a'r ffaith bod cyfraddau llog wedi disgyn yn is na'r hyn a ragwelwyd pan gynhyrchwyd y gyllideb, at y gostyngiad hwn yn y llog a dderbyniwyd. Plymiodd enillion ar fuddsoddiadau, a oedd wedi bod yn isel yn 2019/20, i bron i sero yn 2020/21. Llwyddodd y rhan fwyaf o fenthyciadau i awdurdodau lleol osgoi cyfraddau negatif. Y disgwyliad ar gyfer cyfraddau llog o fewn y strategaeth rheoli trysorlys ar gyfer 2020/21 oedd y byddai'r Gyfradd Banc yn parhau ar 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn cyn codi i 1.25% ar ddiwedd 2022/23. Cafodd y rhagolwg ei annilysu wrth i pandemig Covid-19 ymddangos ym mis Mawrth 2020 gan achosi i'r Pwyllgor Polisi Ariannol dorri'r Gyfradd Banc ym mis Mawrth, i 0.25% yn gyntaf ac yna i 0.10%, er mwyn gwrthbwyso effaith hynod o negyddol y cyfnod clo cenedlaethol ar rannau helaeth o'r economi.

Ar 24 Ebrill 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Metropolitanaidd Stockport ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 1 Mai 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Dinas Salford ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuo nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £20.066m ar 0.03% ar 31 Mawrth 2021 (31 Mawrth 2020 £14.208m ar 0.48%). Roedd un benthyciad i awdurdod lleol arall ar 31 Mawrth 2021 - £5.0m ar gyfradd llog o 0.15% (£3m ar 0.76% a £3m ar 0.90% ar 31 Mawrth 2020). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

**3.7** **Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2021** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy adroddiadau i Aelodau a nodir yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2019/20 a 2020/21 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2020 | | | 31 MAWRTH 2021 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **Cyfradd Cyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl)** | **£'m** | **Cyfradd Cyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl)** |
| Dyled i'r PWLB | 136.4 | 4.53 | 28.21 | 121.9 | 4.59 | 30.57 |
| Dyledion eraill | 2.8 | 0 | 4.04 | 2.6 | 0 | 3.93 |
| **Cyfanswm** | **139.2** | | | **124.5** | | |
| GCC | 136.9 | | | 136.6 | | |
| Gor / (Tan) fenthyciad | 2.3 | | | (12.1) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un am gyfnod llai na blwyddyn, wedi eu rheoli'n fewnol a chyfradd sefydlog) | 6.000 | 0.83 | | 5.000 | 0.15 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (pob un ohonynt wedi eu rheoli'n fewnol) | 14.208 | 0.48 | | 20.066 | 0.03 | |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | 20.208 | 0.58 | | 25.066 | 0.06 | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2020 | | 31 MAWRTH 2021 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **% o'r cyfanswm** | **£'m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyca | 139.2 | 100 | 124.5 | 100 |
| Llai na 12 mis | 14.8 | 10.6 | 0.3 | 0.2 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 2.6 | 1.9 | 5.1 | 4.1 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.2 | 2.3 | 4.5 | 3.6 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 6.2 | 4.5 | 4.8 | 3.9 |
| 10 mlynedd a mwy | 112.4 | 80.7 | 109.8 | 88.2 |

Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir na thymor byr) a disgrifiwyd y dyledion a ad-dalwyd ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn 2020/21

**4.1 Aildrefnu dyledion –** Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen –** Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

**4.3 Polisi Buddsoddi** - Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, a weithredwyd yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2020. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol y farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna hylifedd ac yna'r cynnyrch. Yn ei hanfod, golyga hyn mai'r prif blaenoriaeth yw diogelwch yr arian parod, yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn y llog canrannol y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Y Strategaeth fenthyca a rheoli'r risg cyfradd llog** – Yn ystod 2020/21, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddoeth gan fod enillion o fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd.

**4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)** – Yn ystod 2018/19, rhoddodd y Cyngor bolisi Darpariaeth Refeniw Isaf newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2020/21 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Dangosyddion Darbodus canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 o'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2020/21.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma ragolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2020/21 a 2023/24, ac mae'n seiliedig ar Raglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2021/22.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)** - Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill sydd heb gael ei dalu amdano eto naill ai o adnoddau refeniw neu cyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n uniongyrchol drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn dâl refeniw statudol flynyddol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** - Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrif o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2020/21 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol -** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo, ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellid ei gynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli un ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi ei weithredu hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion a'r gallu i gyllido tanfenthyca drwy adnoddau arian parod eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net** - Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2020/21, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol | 2019/20 Gwirioneddol £'m | 2020/21 Gwreiddiol £'m | 2020/21 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 18.203 | 19.765 | 20.507 |
| • CRT | 11.812 | 17.138 | 12.622 |
| • **Cyfanswm** | **30.015** | **36.903** | **33.129** |
| **Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 96.906 | 108.536 | 97.359 |
| • CRT | 39.998 | 39.449 | 39.199 |
| • **Cyfanswm** | **136.904** | **147.985** | **136.558** |
| **Benthyca Gros** | 139.232 | 134.093 | 124.523 |
| **Dyledion Allanol** | 139.232 | 134.093 | 124.523 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Hirach na blwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai na blwyddyn | 20.208 | 15.000 | 25.066 |
| • **Cyfanswm** | **20.208** | **15.000** | **25.066** |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Dygwyd Ymlaen | 4.96% | 5.15% | 4.80% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r ffrwd refeniw net - CRT | 19.01% | 17.16% | 16.34% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2020/21 oedd £36.903m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £33.129m. Esbonnir y rheswm dros y gwariant is ym mharagraff 3.1 yr adroddiad hwn, ac mae wedi digwydd yn bennaf oherwydd y tanwariant sylweddol ar rai prosiectau cyfalaf fel y disgrifiwyd.

**6.3** Yr ail Ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi ar refeniw dros oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen benthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd lleihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu

- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2020/21 oedd £147.985m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £136.558m. Un o'r rhesymau dros y GCC is oedd y tanwariant yn y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a ostyngodd faint o Fenthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen yn 2020/21. Rheswm arall oedd y grantiau ychwanegol a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn i'w hychwanegu at ffynonellau cyllid eraill, megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth ac, felly'n lleihau'r ffigwr GCC. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, bydd y ffynhonnell cyllido hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2021/22 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£183m) na'r Terfyn Gweithredol (£178m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd £139.2m yn unig ar ei huchaf.

**6.5** Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (4.80%) yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (5.15%), gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio yn ôl y disgwyl, a hefyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw ar gyfer y CRT (16.34%) yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (17.16%) oherwydd bod y costau cyllido yn is a'r llif refeniw net hefyd yn is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2020/21. Gostyngodd y tanwariant ar y CRT swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2020/21 o £16.1m i £7.2m.

## 7. Edrych ymlaen at 2021/22 a'r tu draw i hynny

**7.1** Ar 9 Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22. Roedd y Datganiad Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyg £7.6m yn ychwanegol yn 2021/22 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £15.7m yn 2022/23 ynghyd â £19.0m yn 2023/24 i gyllido ei Raglen Gyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol hwn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol a bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) yn codi er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2021/22, rhagwelir y bydd yr MRP yn £4.2m, £4.3m yn 2022/23 a £4.6m yn 2023/24.

**7.2** Ar 18 Mehefin 2021, aeddfedodd buddsoddiad o £5.0m gyda Chyngor Sir y Fflint ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**7.3** Ar 23 Mehefin 2021, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chyngor Sir y Fflint gyda chyfradd llog o 0.03%. Mae'r buddsoddiad hwn am 3 mis.

**7.4** Nid oes unrhyw fenthyciadau gan y PWLB a fydd yn aeddfedu yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

**7.5** Gellir gweld y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn y tabl isod:-

| Link Group Interest Rate View | 8.3.21 | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mar-21 | Jun-21 | Sep-21 | Dec-21 | Mar-22 | Jun-22 | Sep-22 | Dec-22 | Mar-23 | Jun-23 | Sep-23 | Dec-23 | Mar-24 |
| BANK RATE | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.10 |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / elw isel a benthycwyd mewn ffordd sy'n lleihau ffioedd llog i'r eithaf.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;

**(ii)** Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2020/21 yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2020/21 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.

**Papurau Cefndir:-**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2020/21
Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2020/21
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2020/21

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /**
**SWYDDOG ADRAN 151** **20 GORFFENNAF 2021**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Gorffennaf 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2020-21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120). | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

1.2. Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

1.3. Hefyd, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

1.4. Mae'r adroddiad yn amlygu rhai o'r meysydd risg twyll cyfredol a rhai sy'n esblygu, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r pandemig Covid-19, ac mae'n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer lleihau'r risg o dwyll.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried ac yn cynnig sylwadau ar y gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.




# ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2020-21

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**

**Gorffennaf 2021**

**Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

RHAGARWEINIAD 3
BETH YW TWYLL? 4
PAM FOD ATAL TWYLL YN BWYSIG? 5
Y CYD-DESTUN cyfredol 6
Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll 6
RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N ESBLYGU 7
ASESIAD O DREFNIADAU ATAL TWYLL YNG NGHYNGOR SIR YNYS MÔN 8
Cydnabod cyfrifoldeb 8
Nodi risgiau o dwyll a llygredd 8
Strategaeth atal twyll a llygredd 9
Darparu adnoddau 9
Gweithredu 10
ACHOSION O GEISIO TWYLLO'R CYNGOR YN YSTOD 2020-21 12
CASGLIAD 13
HERIAU A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL 14
ATODIAD 1 - DOGFENNAU A ADOLYGWYD 15

# RHAGARWEINIAD

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 i leihau’r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd o fewn y Cyngor ac yn ei erbyn.

Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i’r gwasanaeth archwilio mewnol arfarnu’r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae’r sefydliad yn rheoli’r risg o dwyll (Safon 2120).


Hefyd, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sydd yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau bod ei systemau rheolaeth cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy’n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a’u canfod.

Mae’r adroddiad yn amlygu rhai o’r meysydd risg twyll cyfredol a rhai sy’n esblygu, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gysylltiedig â’r pandemig Covid-19, ac mae’n dod i gasgliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau’r Cyngor ar gyfer lleihau’r risg o dwyll.

# BETH YW TWYLL?

Yn nodweddiadol, mae'r term 'twyll' yn disgrifio gweithgareddau megis lladrata, llygredd, gwyngalchu arian, cynllwyn, llwgrwobrwyo ac ecstorsiwn. Cyn ei ddeddfu o fewn y gyfraith, derbyniwyd yn gyffredinol bod twyll yn gysyniad cyfreithiol eang a oedd yn cyfeirio'n gyffredinol at weithred ryngwladol a oedd yn cael ei chyflawni i sicrhau mantais annheg neu anghyfreithlon ac roedd yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth droseddol amrywiol eraill megis Deddf Lladrata 1968.

Fodd bynnag, ers hynny, mae twyll wedi dod yn drosedd ynddo'i hun. Mae Deddf Twyll 2006 yn amlinellu tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:




Mae Canolfan Atal Twyll CIPFA yn argymell y diffiniad a ganlyn:

**Mae twyll yn drosedd caffaelgar sy'n golygu dwyn (lladrata) drwy ryw fath o ddichell neu gamliwio.**

# PAM FOD ATAL TWYLL YN BWYSIG?

Mae Twyll yn parhau i fod yn fygythiad ariannol sylweddol i gynghorau ac nid oes unrhyw arwydd ei fod yn arafu. Gall effeithio ar ei enw da ac arallgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus holl bwysig, tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithlonrwydd sefydliadol. Yn ogystal, mae twyll, gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, yn ogystal â llwgrwobrwyo a llygredd, wedi tyfu'n aruthrol i fod yn aflwydd rhyngwladol sy'n herio llywodraethau cenedlaethol a diwydiannau preifat fel ei gilydd.

Mae CIPFA, yn ei adroddiad tracio twyll a llygredd diweddaraf, sef y *National Fraud and Corruption Tracker* (2020), yn cydnabod bod pob punt a gollir oherwydd twyll yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n lleihau gallu'r sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen. Mae'n dyfynnu'r Dangosydd Twyll Blynyddol (*Annual Fraud Indicator*) 2017 sydd yn darparu'r set ddiwethaf o amcangyfrifon a gymeradwywyd gan y llywodraeth, ac mae'n datgan bod cost twyll i'r sector cyhoeddus yn £40.3bn y flwyddyn, gyda £7.3bn o'r cyfanswm hwn yn cael ei golli o fewn llywodraeth leol.

Mae llawer mwy i weithgaredd atal twyll llwyddiannus nag arbed arian yn unig. Gall y gweithgareddau anghyfreithlon hyn danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd - a'r drwydded gymdeithasol sy'n hanfodol i sefydliadau weithredu'n effeithiol. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Yng Nghymru, roedd adroddiad diweddar yr Archwiliwr Cyffredinol (2019) yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i dwyll. Mewn cyfnod o gynni, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll.

Mae CIPFA yn dadlau

> "mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol".

# Y CYD-DESTUN CYFREDOL

## Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll

Yn dilyn trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol ar draws y cyngor mwyach, ac yn lle hynny dynodwyd y rôl atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Adroddodd adolygiad diweddar gan yr Archwiliwr Cyffredinol o drefniadau atal twyll ar draws y sector cyhoeddus bod:

- Yr adnoddau a glustnodir i weithgaredd atal twyll yn amrywio'n fawr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru
- Mae GIG Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn gweithgaredd atal twyll ar lefel genedlaethol a lleol
- Mae gweithgaredd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymchwilio, yn hytrach nac atal.
- Ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, mae trefniadau atal twyll yn amrywio'n fawr o gyngor i gyngor ac nid oes unrhyw dîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau atal twyll mewn llywodraeth leol nac unrhyw strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw grŵp neu rwydwaith proffesiynol cyffredinol sy'n hyrwyddo atal twyll yn benodol mewn llywodraeth leol. Er mwyn llenwi'r bwlch, yng Ngogledd Cymru'n, ffurfiwyd is-grŵp o'r Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ddiweddar i rannu a gyrru arfer da mewn perthynas ag atal twyll.

# RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N ESBLYGU

Adroddodd Cynghorau yn y DU fod oddeutu 47,000 o achosion o dwyll wedi cael eu canfod neu eu hatal yn 2019-20. Twyll treth gyngor sy'n cyfrif am bron i ddwy ran o dair (65%) o'r achosion hyn o dwyll a ganfuwyd ac amcangyfrifir eu bod werth cyfanswm o £35.9m, wedi ei ddilyn gan gonsesiynau parcio i'r anabl (Cynllun Bathodyn Glas) a thwyll yn ymwneud â thai, sy'n cynrychioli 17% ac 11% o'r holl achosion o dwyll sector cyhoeddus yn y DU, yn y drefn honno.

Mae effaith twyll yn ymwneud â grantiau (cyn talu grantiau Covid-19) yn cyfrif am 0.3% o'r holl achosion o dwyll a nodwyd yn y sector cyhoeddus yn y DU, ac 15% o'r cyfanswm (£36.6m).

Yr ardal dwyll gynyddol fwyaf yn y DU yw tenantiaeth tai, gydag amcangyfrif o £60.1m wedi'i golli yn 2019-20 o'i gymharu â £47.7m yn 2018-19. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Tai wedi asesu bod twyll tenantiaeth, yn gyffredinol, yn isel yn Ynys Môn. Fodd bynnag, cafodd erthygl codi ymwybyddiaeth ei chynnwys mewn cylchlythyr a ddosbarthwyd i bob tenant yn rhoi gwybod iddynt beth i'w wneud os oeddent yn amau unrhyw beth mewn eiddo cyfagos ac mae Swyddogion Rheoli Tai'r Gwasanaeth wedi dilyn hyfforddiant twyll tenantiaeth.

Gostyngiad person sengl y dreth gyngor (SPD) yw'r ardal twyll gynyddol fwyaf nesaf yn y DU, sydd â chynnydd amcangyfrifedig o £9.6m i werth amcangyfrifedig o £29.0m ar gyfer achosion a ganfuwyd/a ataliwyd yn 2018-19. Mae'r Cyngor yn defnyddio cwmni allanol i adolygu a dilysu ei hawliadau SPD o bryd i'w gilydd i nodi hawliadau sydd mewn perygl o dwyll a gwallau. Nododd yr ymarfer diwethaf ym mis Awst 2018 £340,347 o wallau, gyda chyfradd gwallau o 4.3%.

Mae'r ddau faes risg twyll canfyddedig uchaf ar gyfer 2019-20 yr un fath â'r llynedd: caffael a SPD y dreth gyngor. Mae hyn yn dangos mai dyma'r meysydd y mae angen rheolaethau a chymorth llym arnynt. Mae 'twyll drwy gam-drin pŵer' yn un o dair ffordd y mae Deddf Twyll 2006 yn dweud y gellir cyflawni twyll. Mae hyn yn berthnasol i swyddogion sy'n awdurdodi, rheoli a monitro contractau gyda'r sector preifat. Mae'r Cyngor yn derbyn bod hwn yn faes y mae angen ei gryfhau ar draws y Cyngor, ac nid oes gennym system na dull gweithredu cyson. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad o natur fregus y Cyngor i dwyll caffael yn ystod 2021-22.

Y trydydd, pedwerydd a'r pumed risg twyll canfyddedig uchaf yw trethi busnes, gofal cymdeithasol oedolion a gostyngiadau'r dreth gyngor, yn y drefn honno.

# ASESIAD O DREFNIADAU ATAL TWYLL YNG NGHYNGOR SIR YNYS MÔN

Mae CIPFA yn cymeradwyo set gyffredin o egwyddorion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella arfer atal twyll, sy'n cael eu nodi yn ei ddogfen, *Code of Practice on Managing the Risk of Fraud and Corruption* (2014). Gan ddefnyddio'r cod hwn fel meincnod cynhaliwyd asesiad yn erbyn y pum egwyddor a gellir gweld crynodeb lefel uchel o'r canlyniadau isod.

## Cydnabod cyfrifoldeb

Mae egwyddor gyntaf y Cod yn argymell y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws pob rhan o'r sefydliad.

Yn benodol, mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi cydnabod bygythiadau twyll a llygredd, a'r niwed y gallant eu hachosi i'r sefydliad, ei nodau a'i amcanion ac i ddefnyddwyr gwasanaeth, drwy gynnwys twyll ar ei gofrestr risg corfforaethol:

- YM46: Risg o dwyll yn erbyn y Cyngor

Mae'r dogfennau a ddisgwylir fel rhan o ymateb atal twyll cyngor ar gael ar fewnrwyd y cyngor, er nad ydynt wedi cael eu hyrwyddo yn benodol o fewn y sefydliad.

Bydd rhaglen gynhwysfawr o ddiweddaru polisïau, codi ymwybyddiaeth o atal twyll a phecyn e-ddysgu yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r Strategaeth Atal Twyll ar gyfer 2021-22.

## Nodi risgiau o dwyll a llygredd

Mae'r ail egwyddor yn argymell bod adnabod y risg o dwyll yn hanfodol er mwyn deall achosion penodol o fod yn agored i risg, newid ym mhatrymau'r bygythiad o dwyll a llygredd, a'r canlyniadau posib i'r sefydliad a'i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Cod yn cefnogi ystyried risgiau o dwyll a llygredd fel risgiau busnes ac iddynt gael eu rheoli fel rhan o broses rheoli risg y sefydliad.

Mae gan y Cyngor broses rheoli risg aeddfed, ac mae'r risg o dwyll wedi cael ei ystyried a'i asesu'n ffurfiol fel rhan o'r broses reoli risg gorfforaethol, sydd wedi arwain at YM46 yn y gofrestr risg gorfforaethol, fel y trafodir uchod.

Mae hyn wedi cynorthwyo'r Cyngor i ffurfioli ei ymateb i dwyll. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod ymateb y Cyngor i risgiau yn gymesur, ac osgoi gorymateb i risgiau neu ymateb yn esgeulus iddynt.

Datblygir gweithgor atal twyll yn ystod 2021-22 er mwyn cynorthwyo i nodi'r risg o dwyll ar draws y Cyngor.

## Strategaeth atal twyll a llygredd

Mae'r drydedd egwyddor yn argymell bod angen strategaeth atal twyll ar sefydliadau sydd yn nodi ei ddull ar gyfer rheoli risgiau ac yn diffinio cyfrifoldebau am weithredu.

Mae gan y Cyngor Bolisi Atal Twyll a Llygredd sy'n cael ei adolygu a'i gymeradwyo bob blwyddyn fel rhan o'r Cyfansoddiad.

Fodd bynnag, nid oes ganddo strategaeth. Bydd strategaeth wedi'i ddiffinio'n glir, ei gymeradwyo ar y lefel uchaf ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn cynorthwyo i sicrhau bod y Cyngor yn cymryd y risg o dwyll a llygredd o ddifri.

Ar ôl sefydlu gweithgor atal twyll i nodi'r risg o dwyll ar draws y Cyngor, bydd strategaeth atal twyll, llygredd a llwgrwobrwyo yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2021.

## Darparu adnoddau

Mae'r bedwaredd egwyddor yn argymell y dylai sefydliadau wneud trefniadau ar gyfer adnoddau priodol i gefnogi'r strategaeth atal twyll.

Yn y gorffennol, bu diffyg o ran buddsoddi a defnyddio adnoddau o fewn y Cyngor mewn perthynas â threfniadau atal twyll. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae ymrwymiad i leihau'r risg o dwyll a llygredd yn cael ei arddangos yn glir o ganlyniad i ychwanegu adnodd o fewn y gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rheoli Risg i ymgymryd â gwaith mewn perthynas ag ymarfer

cydweddu data'r Fenter Twyll Genedlaethol. Er nad yw'n swyddog atal twyll dynodedig, bydd yn caniatáu i ddata a gydweddir gael ei archwilio.

## Gweithredu

Mae'r egwyddor derfynol yn argymell bod sefydliadau yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r strategaeth atal twyll a llygredd ac i gymryd camau i atal, canfod ac ymchwilio twyll. Mae'n sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll. Fodd bynnag, beth bynnag yw maint gweithgareddau sefydliad, mae angen i'r sefydliad gymryd camau priodol ac adrodd ar y camau hynny i'w gorff llywodraethu.

Mae fframwaith o bolisïau'n bodoli, fel yr argymhellir yn y canllawiau, ac mae meddalwedd derbyn polisïau yn monitro a yw staff yn deall ac yn derbyn y polisïau. Cyflwynwyd y polisïau a ganlyn i staff er mwyn iddynt gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ohonynt:

**Cod Ymddygiad Swyddogion a Chanllawiau Lleol**

| Dyddiad o | Fel ar | Cyfradd Cydymffurfio | Statws Presennol |
|---|---|---|---|
| 08/04/2019 | 17/07/2019 | 94% (917 of 971) | Archifwyd 12/03/2021 |
| 15/03/2021 | 27/04/2021 | 85% (819 of 961) | Byw |
| | 22/06/2021 | 905 | |

**Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban**

| Dyddiad Cychwyn | Fel ar | Cyfradd Cydymffurfio | Statws Cyfredol |
|---|---|---|---|
| 03/06/2019 | 16/07/2019 | 89% (855 of 960) | |
| | 21/05/2021 | 979 | Archifwyd 21/05/2021 |
| 24/05/2021 | 22/06/2021 | 679 - Cyfnod cydymffurfiaeth 6 wythnos yn cau ar 05/07/2021 | Byw |

Mae'r UDA yn ystyried adroddiadau cydymffurfiaeth yn seiliedig ar y 6 wythnos gyntaf ond mae'r polisïau'n parhau i fod ar gael ar y system i staff eu derbyn. Mae hyn yn caniatáu i staff nad ydynt wedi cwblhau'r polisi ar amser, am ba bynnag rheswm, i ddal i fyny. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod y set graidd o bolisïau'n cael eu dyrannu o fewn 24 awr pan ychwanegir unrhyw aelod newydd o staff i grwpiau gwasanaeth y Cyfeiriadur Gweithredol.

Bydd y data cydymffurfiaeth diweddaraf ar gyfer y ddau bolisi yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad y bwriedir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Medi 2021.

Y ffordd orau o ymladd twyll yw drwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, mae'r Cyngor wedi darparu tri digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o dwyll yn ystod 2020-21:

- Sesiwn Hyfforddiant Atal Twyll – roedd 30 aelod o staff yn bresennol
- 'Twyll a Sgamiau – Sut i Gadw'n Saff' – cynhaliwyd dwy sesiwn gyda 31 aelod o staff yn bresennol yn un o'r sesiynau a 33 yn y llall

Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys adolygiad o'r mathau mwyaf cyffredin o dwyll a gyflawnir drwy ddulliau seibr, yn ogystal â darparu digon o gyngor ymarferol gan gynnwys:

- Prif fygythiadau – Sgamiau E-bost ac Ailgyfeirio Anfonebau
- Rôl teilwra cymdeithasol yn y mathau mwyaf cyffredin o dwyll
- Maleiswedd a gwe-rwydo ariannol
- SMS-rwydo a llais-rwydo
- Cyngor ar sut i aros yn saff ar-lein

Yn ogystal, anfonodd y Prif Weithredwr neges e-bost at yr holl staff ym mis Ebrill 2020 i atgoffa staff am yr hyn y dylent ac na ddylent ei wneud mewn perthynas â throseddau seibr.

Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhannu rhybuddion y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol i adrannau perthnasol yn y sefydliad yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r holl achosion o dwyll, gan gynnwys y canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu, yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

# ACHOSION O GEISIO TWYLLO'R CYNGOR YN YSTOD 2020-21

Roedd 2020-21 yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg, wrth i'r pandemig Covid-19 drawsnewid ein bywydau bob dydd yn ddramatig a chafodd cyfyngiadau'r cyfnodau clo effaith sylweddol ar yr economi.

Yn ystod 2020-21, adroddwyd i'r Archwiliad Mewnol am ddau dwyll 'ailgyfeirio maleisus', a elwir hefyd yn dwyll mandad (pan fydd rhywun yn dynwared trydydd parti fel cyflenwr). Roedd y cyntaf yn cynnwys system e-bost cyflenwr yn cael ei hacio. Derbyniodd y Cyngor gais dilys i bob golwg gan y cyflenwr, drwy e-bost, i'w fanylion banc gael eu newid. Newidiodd y Cyngor fanylion y banc a thalodd ddau anfoneb gan ddefnyddio'r manylion banc twyllodrus. Yn ffodus, nododd tîm twyll y banc derbyn y cyfrif fel un twyllodrus a hysbysodd fanc y Cyngor, a chafodd y rhan fwyaf o'r taliad ei atafaelu'n llwyddiannus.

Darparodd y banc ddwy sesiwn atal twyll i staff y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o dwyll a beth i edrych amdano, yn arbennig yn ystod yr argyfwng, yn eu bywyd personol ac yn y gwaith. Roedd yr hyfforddiant hwn yn amserol oherwydd yn fuan wedyn derbyniodd Swyddog Cyflogres e-bost gan aelod o staff yn gofyn am newid eu manylion banc. Ar ôl cael ei rybuddio am y math hwn o dwyll, gwnaeth y Swyddog Cyflogres ymholiadau am y cais a chanfuwyd fod y cyfeiriad e-bost wedi cael ei ffugio, ac o ganlyniad cafodd y twyll ei atal.

O ganlyniad i'r achosion hyn o geisio twyllo, cynhaliodd Archwilio Mewnol ddau archwiliad yn yr adain Credydwyr – Cynnal Cyflenwyr ac Adnabod ac Adennill Taliadau Dyblyg. Rhoddwyd Sicrwydd Cyfyngedig i'r ddau archwiliad a chodwyd Materion/Risgiau i reolwyr roi sylw iddynt. Datblygwyd cynlluniau gweithredu ac mae prosiect ar waith i fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau a godwyd.

Hefyd, canfu'r Tîm Grantiau a rhoi'r gorau i nifer o geisiadau twyllodrus am grant busnes Covid-19 cyn talu. Ar hyn o bryd nid oes system i wasanaethau roi gwybod am dwyll posibl sydd wedi'u nodi a'u hatal. Bydd y Gweithgor Gwrth Dwyll yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod 2021-22.

# CASGLIAD

Mae rhyw lefel o dwyll yn debygol yn y sector cyhoeddus, hyd yn oed ystod cyfnodau arferol, ond roedd 2020-21 yn flwyddyn o heriau heb eu tebyg wrth i'r pandemig Covid-19 drawsnewid gwaith y Cyngor a bywydau ei staff, a chafodd cyfyngiadau'r cyfnodau clo effaith sylweddol ar yr economi.

Cafodd y gwaith a gynlluniwyd i wella trefniadau atal twyll y Cyngor eu hatal wrth i'r tîm gefnogi ymateb y Cyngor i'r pandemig. Fodd bynnag, llwyddodd adleoli un aelod o'r tîm Archwilio Mewnol i'r tîm a oedd yn dosbarthu grantiau busnes Covid-19 i helpu i sicrhau her drwyadl a chadarn wrth dalu'r grantiau holl bwysig hyn, maes sydd yn arbennig o agored i dwyll yn ystod argyfyngau oherwydd y symiau o arian dan sylw a pha mor gyflym yr oedd angen dosbarthu'r grantiau.

Dioddefodd y Cyngor ei hun dwyll mandad, ond cafodd colled ariannol y Cyngor ei ostwng o ganlyniad i ymyrraeth gyflym gan y banc. Llwyddodd digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o dwyll i atal ail ymgais.

Fel rheolwyr adnoddau cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad sector cyhoeddus i ymladd yn erbyn twyll a llygredd. Mae ymdrechion llwyddiannus gan sefydliadau i atal, nodi a rheoli gwahanol fathau o dwyll nid yn unig yn cryfhau cyflwr cyllid cyhoeddus ond hefyd yn lliniaru risgiau moesegol a risgiau i enw da ar draws y sector cyhoeddus.

Mae rheoli risgiau o dwyll a llygredd yn effeithiol yn rhan hanfodol o gyngor effeithiol a modern, un sy'n rheoli ei adnoddau'n effeithlon er mwyn sicrhau canlyniadau gwerth am arian.

# HERIAU A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL

Yn genedlaethol, capasiti, neu adnoddau atal twyll digonol, yw'r prif fater canfyddedig y mae angen rhoi sylw iddo er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â'r risg o dwyll a llygredd.

Mae cynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n gweithio o bell yn rhoi cyfle i droseddwyr gyflawni twyll, pa un ai yw'n ymwneud â chynnig trwsio dyfeisiau fel y gallant gael mynediad i rwydwaith y Cyngor, neu drwy ddynwared neu hacio er mwyn ailgyfeirio taliadau yn faleisus.

Mae'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau diogelwch, rheoleiddwyr a'r sector preifat yn parhau i weithio gyda'i gilydd i warchod y cyhoedd a busnesau rhag bob math o dwyll. Mae twyll yn hynod o anodd i'w ddarogan ac er eu bod yn monitro tueddiadau mewn troseddau yn ofalus, y peth pwysicaf yw cyfleu'r neges i staff ac i'r cyhoedd i fod yn ymwybodol ac yn effro.

Felly bydd rhaglen gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth atal twyll, drwy gyfrwng e-ddysgu ac adnewyddu polisïau, yn gonglfaen i'r strategaeth atal twyll ar gyfer 2021-22.

Yn ogystal, mae angen amlwg am ymagwedd gadarn sy'n cael ei chefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant. Bydd yn holl bwysig cael trefniadau cadarn a chefnogaeth gan y pwyllgor gwaith er mwyn sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

Yn olaf, mae gan ymddygiadau a gweithredoedd unigolion rôl holl bwysig wrth fynd i'r afael â risgiau twyll. Mae'n rhaid i bob un ohonom, yn staff ac aelodau fel ein gilydd, chwarae ein rhan i greu diwylliant sy'n elyniaethus i'r risgiau o dwyll a llygredd, a thynnu llinell glir rhwng ymddygiad derbyniol ac annerbyniol o fewn y Cyngor.

# ATODIAD 1 – DOGFENNAU A ADOLYGWYD

- Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, Mawrth 2017
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Twyll - Y Ffeithiau 2021 / Fraud - The Facts 2021, UK Finance
- Tracio Twyll a Llygredd / CIPFA Fraud and corruption tracker, Adroddiad Cenedlaethol (Chwefror 2021)
- Ymladd Twyll a Llygredd yn Lleol, Strategaeth ar gyfer yr 2020au / Fighting Fraud and Corruption Locally, A Strategy for the 2020s
- Adolygiad o risgiau twyll a llygredd mewn perthynas â chaffael mewn llywodraeth leol / Review into the risks of fraud and corruption in local government procurement, Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mehefin 2020
- ‘Gwella Ein Perfformiad’ Mynd i’r afael â Thwyll yng Nghymru, Adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2020
- Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwiliwr Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Gorffennaf 2021 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar y Strategaeth a'r Blaenoriaethau Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## Rhagarweiniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 12 Gorffennaf 2021 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 20 Ebrill 2021, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

## Y CYD-DESTUN CYFREDOL

3. Mae angen bod yn hyblyg i sicrhau bod gwaith archwilio yn cwrdd ag anghenion y Cyngor yn yr amgylchedd risg a rheolaeth hwn sy'n newid yn barhaus. Felly, mae llwyth gwaith y tîm archwilio mewnol yn cael ei adolygu'n gyson, mewn ymgynghoriad agos â'r Rheolwr Risg ac Yswiriant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

| **Maes Archwilio** | **Dyddiad yr Adroddiad Terfynol** | **Lefel Sicrwydd** | **Trychinebus** | **Mawr** | **Cymedrol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Parhad y Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo)▲ | Mai 2021 | **Cyfyngedig** | 0 | 2 | 2 |
| Sicrwydd ynghylch trefniadau Rheoli Argyfwng Covid-19▲ | Mai 2021 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Nodi Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg▲ | Mai 2021 | **Cyfyngedig** | 0 | 3 | 3 |
| Gwytnwch TG (Dilyn i fyny am y tro cyntaf)▲ | Mai 2021 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 1 |
| Cynllun Taliadau Arbennig y Gweithlu Gofal Cymdeithasol | Gorffennaf 2021 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 |
| Ymdopi â Digartrefedd ac Effeithiau Covid-19 | Gorffennaf 2021 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion (Dilyn i fyny am y tro cyntaf) | Gorffennaf 2021 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 1 |

## GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

4. Mae'r archwiliadau a ganlyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd:

| **Maes Archwilio** | **Gwasanaeth** | **Rheswm am yr Archwiliad** | **Cam** |
|---|---|---|---|
| Tai - Gosodiadau | Tai | Cais gan y Pwyllgor Gwaith | Gwaith Maes |
| Adennill Dyledion y Cyngor | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes |

▲ Mae aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eisoes wedi derbyn copïau llawn o'r adroddiadau hyn, a chynlluniau gweithredu lle bo hynny'n berthnasol

| **Maes Archwilio** | **Gwasanaeth** | **Rheswm am yr Archwiliad** | **Cam** |
|---|---|---|---|
| Proses Gadawyr – Dilyn i fyny am y tro cyntaf | Adnoddau / Trawsnewid | Dilyn i fyny adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 | Gwaith Maes |

## CAMAU A DDYLAI FOD WEDI CAEL SYLW ERBYN HYN

5. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i weithredu'r holl gamau sydd angen sylw. Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn dangos y sefyllfa ar 12 Gorffennaf 2021.

6. Bu gwasanaethau'n gweithio'n galed i fynd i'r afael â 'Materion/Risgiau' sydd angen sylw gan adael wyth o gamau a ddylai fod wedi cael sylw erbyn hyn (Roedd 16 gweithred a ddylai fod wedi cael sylw ar 6 Ebrill 2021).

7. Maent yn cynnwys camau'n ymwneud ag:

- Adroddiad Proses Gadawyr a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020, sy'n cael ei ddilyn i fyny ar hyn o bryd
- Adroddiad Cynnal Cyflenwyr a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021, a fydd yn cael ei ddilyn i fyny ym mis Medi 2021


8. Mae'r gweddill yn cynnwys camau'n ymwneud â phrosesau cyson ar gyfer adennill ôl-ddyledion tai a chynnal gwiriadau annibynnol ar adroddiadau eithriad y gyflogres, sydd yn dyddio'n ôl i 2018/19 a 2014/15 yn y drefn honno.

## YMCHWILIADAU


9. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cymryd rhan mewn tri ymchwiliad, a chwblhawyd un ohonynt yn ddiweddar.

# ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N HWYR (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 12 GORFFENNAF 2021


## Overdue Actions




## Total Outstanding Actions




## Outstanding Issues/Risks by Assurance Rating




## Total issues/risks by status




## Overdue Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Adnoddau / Resources | 7 |

## All outstanding Issues/Risks by Service

| Service | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Dysgu / Learning | 9 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 4 |
| Adnoddau / Resources | 35 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Uwch Dim Arweinyddu / Senior Leadership Team | 1 |
| Trawsnewid / Transformation | 9 |

## Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

## Outstanding Limited Assurance Reports

| Audit Title | Count |
|---|---|
| Leavers' Process 192014 | 3 |
| Payments - Supplier Maintenance 202107 | 10 |
| Identification of Duplicate Invoices and Recovery of Duplicate Payments 202118 | 6 |
| ICT Service Continuity (Phishing) 202123 | 4 |

## Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 4148 | Business Continuity 3 - Our testing identified a lack of quality assurance activity over corporate and service business continuity plans and key... |
| 4157 | IT Resilience 2 - There is a lack of continuity and co-ordination between the Council's corporate business continuity plans and the IT disaster... |
| 4161 | IT Resilience 3 - There has not been any formal training for IT staff with regards their responsibilities in the event of an IT incident requiring... |
| 4165 | IT Resilience 5 - The Council has included a list of 18 priority business applications and servers for recovery in the event of an IT related... |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn

## Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2021

### Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| Archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2020-21 y Cyngor | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. | Mis Mehefin 2021 hyd at fis Medi 2021 | Derbyniwyd y datganiadau ariannol ar 15 Mehefin 2021 ac mae gwaith maes archwilio yn parhau. |
| Grantiau | Ardystio hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai 2018-19 a 2019-20 | Terfynau amser ardystio'r Adran Gwaith a Phensiynau oedd 30.11.2019 ar gyfer hawliad 2018-19, a 31.1.2021 ar gyfer hawliad 2019-20. | Rydym yn aros am ymateb gan y Cyngor a gwybodaeth ddilynol o ran Cynlluniau wedi'u Haddasu i gwblhau ardystiad hawliad 2018-19.<br>Mae hawliad 2019-20 wedi'i oedi hyd nes y caiff hawliad 2018-19 ei ardystio. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn** | Prosiect sy'n gyffredin i gynghorau'r Gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut y mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal cartref preswyl a nyrsio yn strategol. | Medi 2021 | Cyhoeddir adroddiad lleol drafft ym mis Gorffennaf 2021 |
| **Cynaliadwyedd Ariannol** | Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yn sgil yr heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan ategu gwaith a wnaed yn ystod 2019-20. | Gorffennaf 2021 | Cyhoeddwyd adroddiad lleol drafft<br>Disgwylir cyhoeddi Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Awst 2021 |
| **Cynllunio'r Gweithlu** | Bydd yr adolygiad yn nodi manteision ymgorffori'r gwaith cynllunio gweithlu diwygiedig o fewn y gwasanaethau i Blant | Gorffennaf 2021 | Cyhoeddwyd Adroddiad lleol drafft |

| Gwaith archwilio perfformiad 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WFG)** | Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LlCD o gamau i gyflawni amcanion llesiant â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Archwiliad o adrodd ar welliannau** | Archwiliad o gyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. | Medi/Hydref 2021 | Yn amodol ar gyhoeddi adroddiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | perfformiad blynyddol y cyngor |
| **Sicrwydd ac Asesu Risg** | Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu le y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran risgiau i'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.<br>Yng Nghyngor Sir Ynys Môn mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:<br>• y sefyllfa ariannol<br>• trefniadau hunanasesu<br>• cynllunio adferiad<br>• goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)<br>• cynlluniau lleihau carbon | Mis Ebrill 2021 hyd at fis Mawrth 2022 | Parhaus |
| **Camu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy** | Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. | Wedi'i gynllunio ar gyfer Hydref 2021 ymlaen – i'w gadarnhau ar ôl cwmpasu. | Cwmpasu prosiectau |
| **Adolygiad o Wella drwy Ddysgu: Budd-dal Tai** | Nodi a gwella'r hyn a ddysgwyd a nodwyd yn rhan o'r broses Ardystio Hawliadau Budd-dal Tai. | Mis Ionawr hyd at fis Mawrth 2022 | Cwmpasu prosiectau |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi'u cynllunio / ar y gweill

| Astudio | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|---|---|---|
| **Adfywio Canol Trefi** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol a'u partneriaid yn mynd i'r afael ag adfywio canol trefi | Cyhoeddi ym mis Medi 2021 | Drafftio | Amherthnasol |
| **Taliadau Uniongyrchol** | Adolygiad o sut y mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol | Cyhoeddi Hydref 2021 | Gwaith maes wedi'i gwblhau; mae arolwg derbynwyr a darparwyr ar y gweill ar hyn o bryd | Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a chyfres o gyfweliadau dilynol |
| **Gwasanaethau Brys** | Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio | Cyhoeddi Hydref 2021 | Gwaith maes tan ddiwedd Gorffennaf | Na |
| **Dilyniant ar Bobl yn Cysgu Allan** | Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020 | I'w gadarnhau | Sefydlu prosiect | Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Digartrefedd a Chefnogi Pobl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tlodi** | Deall sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi. | I'w gadarnhau | Prosiect wedi'i sefydlu | I'w gadarnhau |
| **Mentrau Cymdeithasol** | Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau | I'w gadarnhau | Prosiect wedi'i sefydlu | I'w gadarnhau |
| **Cydnerthedd Cymunedol** | Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau | I'w gadarnhau | Prosiect wedi'i sefydlu | I'w gadarnhau |

## Estyn

| Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol | Gweithiodd Estyn yn agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllawiau diwygiedig (a gyhoeddir ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen rhagor o fireinio. | Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i ailddechrau o **ddiwedd** tymor yr Hydref | Amherthnasol |
| Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm | Cymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm. | Casglu tystiolaeth ym mis Medi/ Hydref – cyhoeddi ddechrau mis Chwefror | Amherthnasol |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith arfaethedig AGC 2021-22 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd** | Bydd AGC yn cwblhau ei waith ar Wiriadau Sicrwydd gan gynnwys cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol. | Gorffennaf – Medi 2021 | Ar y gweill |
| **Adolygiad cenedlaethol** | Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd. | i'w gadarnhau | Ar y gweill – Drafftio adroddiad |
| **Gwaith dilynol** | Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen. | i'w gadarnhau | Heb ddechrau eto |
| **Arolygiad** | Bydd gweithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen. | i'w gadarnhau | Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2021

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| **Offeryn Data Cyllid GIG Cymru 2020-21** | Mehefin 2021 |
| **Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru** | Mehefin 2021 |
| **Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol** | Mai 2021 |
| **Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** | Mai 2021 |
| **Yn ôl eich doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol** | Ebrill 2021 |
| **Caffael a Chyflenwi cyfarpar diogelu personol ar gyfer Pandemig COVID-19** | Ebrill 2021 |

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru sydd i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo/a gynlluniwyd)[1]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig |
|---|---|
| **Offeryn data amseroedd aros y GIG** | Mis Gorffennaf 2021 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff a archwiliwyd i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym maes polisi Llywodraeth Cymru a meysydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

| | |
|---|---|
| **Cefnogi lles staff y GIG** | Mis Awst 2021 |
| **Gweinyddu cyllid myfyrwyr** | Mis Awst 2021 |
| **Comisiynu cartrefi gofal** | Mis Awst 2021 |
| **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus** | Mis Medi 2021 |
| **Rhaglen Cartrefi Cynnes** | Mis Medi 2021 |
| **Sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru** | Hydref 2021 |
| **Gweithlu Llywodraeth Cymru** | Hydref 2021 |
| **Gwasanaethau orthopedig** | Hydref 2021 |
| **Gofal heb ei drefnu** | Hydref 2021 |
| **Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol** | Hydref 2021 |
| **Amcanion llesiant a bennir gan Lywodraeth Cymru** | Hydref 2021 |
| **Diwygio'r cwricwlwm** | Gaeaf 2021 |
| **Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru** | I'w gadarnhau |
| **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** | I'w gadarnhau |
| **Newid yn yr hinsawdd – adolygiad sylfaenol** | I'w gadarnhau |

| | |
|---|---|
| **Sylwadau cryno ar asesiad strwythuredig y GIG 2021** | I'w gadarnhau |
| **Tai fforddiadwy** | I'w gadarnhau |
| **Seilwaith band eang** | I'w gadarnhau |
| **Rheoli perygl llifogydd** | I'w gadarnhau |

## Digwyddiadau a chyhoeddiadau Cyfnewid Arfer Da sydd ar ddod

| **Teitl** | **Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwyliedig** |
|---|---|
| **Adfywio Canol Trefi** | 2 Medi 2021 |
| **Mae'r Tîm Cyfnewid Arfer Da wrthi'n cwblhau'r rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer gweddill 2021/2022. Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd ein cysylltiadau allweddol ar draws awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu a bydd manylion y digwyddiadau hynny a sut i gofrestru ar gael ar ein gwefan. Cadwch lygad am ddiweddariad trwy e-bost dros yr wythnosau nesaf.** | Amherthnasol |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Gorffennaf 2021 |
| **Pwnc:** | Blaenraglen Waith 2021-22 Wedi'i Diweddaru |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y diwygiadau i'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2021-22 y Pwyllgor. | |

## Cyflwyniad

1. Mae’r Blaen Raglen Waith arfaethedig yn Atodiad A yn cymryd i ystyriaeth y swyddogaethau craidd hyn a’r ddeddfwriaeth newydd. Ymgynghorwyd â gwasanaethau sy’n cyfrannu at adroddiadau i’r Pwyllgor. Tynnir sylw at welliannau mewn **print trwm**.

## Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:

   - yn nodi'r mân ddiwygiadau i'r Flaenraglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2020-21 (3.4.8.3.1)<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2021-22 (3.4.8.3.2) | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor | | Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | **Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio (3.4.8.4.4)** | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2020-21 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2022-23) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | | Cofrestr Risg Corfforaethol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Cofrestr Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| **Swyddogaeth Graidd** | **Dydd Mawrth 25/05/21** | **Dydd Mercher 23/06/21** | **Dydd Mawrth 20/07/21** | **Dydd Mawrth 21/09/21** | **Dydd Iau 09/12/21** | **Dydd Mawrth 08/02/22** | **Dydd Mawrth 19/04/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Twyll Blynyddol 2020-21 (3.4.8.9.4) | Adroddiad Sylwadau, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | **Strategaeth Twyll (3.4.8.9.2/3)** | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020-21 (3.4.8.10.6/7/8/9 / 12/14/15) (3.4.8.6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13)<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6 )<br><br>Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/ 11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11 ) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 (3.4.8.11.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2021-22 (3.4.8.11.1/3) |

Tudalen 75

## Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| Swyddogaeth Graidd | Dydd Mawrth 25/05/21 | Dydd Mercher 23/06/21 | Dydd Mawrth 20/07/21 | Dydd Mawrth 21/09/21 | Dydd Iau 09/12/21 | Dydd Mawrth 08/02/22 | Dydd Mawrth 19/04/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2020-21 (3.4.8.12.1/2) | | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13) | | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol (3.4.8.13.1) | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Derbyn Polisi 2021-22 (3.4.8.13.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.13.1) | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn ysgolion (3.4.8.13.1) | | |

# Atodiad A – Blaenraglen Waith Wedi'i Diweddaru 2021-22

| **Swyddogaeth Graidd** | **Dydd Mawrth 25/05/21** | **Dydd Mercher 23/06/21** | **Dydd Mawrth 20/07/21** | **Dydd Mawrth 21/09/21** | **Dydd Iau 09/12/21** | **Dydd Mawrth 08/02/22** | **Dydd Mawrth 19/04/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | | Adroddiad Blynyddol Sylwadau, Cwynion a Chywthu Chwiban (3.4.8.14.1/2) | | | |
| Perfformiad y Panel (3.4.8.15) | | | ~~**Hunan Asesiad Drafft 2020-21 (3.4.8.15.1/2)**~~[1] | | | | |

[1] Bydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf fel rhan o ofynion y ddeddfwriaeth newydd.

This page is intentionally left blank